

Dogfen ymgynghori ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Sengl

30 Hydref 2008 – 23 Ionawr 2009

CYNNWYS

Rhagair
Crynodeb Gweithredol

Pennod 1 -	Cyflwyniad	Tudalen 9
Pennod 2 -	Rôl Llywodraeth y Cynulliad	Tudalen 13
Pennod 3 -	Hawliau Dynol – Rhoi'r Dinesydd wrth Wraidd ein Gwaith	Tudalen 14
Pennod 4 -	Ein Blaenoriaethau	Tudalen 17
Pennod 5 -	Casglu'r Dystiolaeth a'i Dadansoddi	Tudalen 21
Pennod 6 -	Creu Polisïau Cynhwysol ac Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb	Tudalen 23
Pennod 7 -	Ein Rôl fel Cyflogwr	Tudalen 28
Pennod 8 -	Penodiadau Cyhoeddus	Tudalen 32

Atodiadau

Atodiad 1 -	Datblygu a Monitro'n Cynllun	Tudalen 33
Atodiad 2 -	Gwybodaeth am yr Ymgynghori	Tudalen 39
Atodiad 3 -	Cefndir y Cynlluniau Gweithredu	Tudalen 44
Atodiad 4 -	Cynlluniau Gweithredu Adrannol	Tudalen 45
Atodiad 5 -	Y Cefndir Cyfreithiol	Tudalen 46
Atodiad 6 -	Rhestr Termau	Tudalen 50
Atodiad 7 -	Llyfryddiaeth	Tudalen 54

Ymgynghoriad ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Sengl

Cyhoeddwyd: 30 Hydref 2008
Ymatebwch erbyn: 23 Ionawr 2009

Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn
Wrth ymateb, byddwch cystal â nodi a ydych yn ymateb fel unigolyn neu fel un sy'n cyfleu barn corff.

Os ydych yn ymateb ar ran corff, byddwch cystal ag egluro pwy y mae'r corff yn ei gynrychioli ac, os yw'n berthnasol, sut y casglwyd barn yr aelodau.

Os byddwch am ei defnyddio, mae ffurflen ymateb barod ar gael sy'n cynnwys y cwestiynau yr ydym yn ceisio barn amdanynt yn:
http://new.wales.gov.uk/topics/equality/?lang=cy

Gellir cyflwyno ymatebion hefyd drwy lythyr, ffacs neu neges e-bost i:

Yr Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Ystafell 3.13
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
ehrd@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 029 2080 1067
Ffôn: 029 2082 3772

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 – Cyfrinachedd Ymgyngoriadau
Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ar ôl cwblhau'r broses ymgynghori. Gellir datgelu'ch ymateb, a'r holl ymatebion eraill i'r ymgynghoriad, os gwneir cais.

Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru ond yn gallu gwrthod datgelu gwybodaeth mewn amgylchiadau eithriadol. **Cyn** ichi gyflwyno'ch ymateb, byddwch cystal â darllen y paragraffau isod ar gyfrinachedd ymgyngoriadau a byddant yn rhoi cyfarwyddyd i chi ar y sefyllfa gyfreithiol mewn cysylltiad ag unrhyw wybodaeth yr ydych wedi'i rhoi mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi hawl i'r cyhoedd weld unrhyw wybodaeth sydd wedi'i dal gan awdurdod cyhoeddus, sef Llywodraeth Cynulliad Cymru yn yr achos hwn.
Mae'r hawl hon i weld gwybodaeth yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i darparu mewn ymateb i ymgynghoriad. Ni all Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried yn awtomatig fod gwybodaeth sydd wedi'i rhoi iddi mewn ymateb i ymgynghoriad yn gyfrinachol.

Fodd bynnag, mae ganddi gyfrifoldeb i benderfynu a ddylai unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gennych mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch pwy ydych, gael ei chyhoeddi neu ei thrin yn gyfrinachol. Fel arfer,

cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) ei hawdur ynghyd â'r ymateb, gan fod hyn yn rhoi hygrededd i'r ymgynghoriad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb beidio â chael ei gyhoeddi, neu iddo gael ei gyhoeddi heb ei briodoli, byddwch cystal â chynnwys eglurhad yn eich ymateb.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd y gellir cael amgylchiadau lle y bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru drosglwyddo gwybodaeth i drydydd partïon ar eu cais, er mwyn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau statudol. Mae hyn yn cynnwys ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 1992. I gael mwy o wybodaeth am God Ymarfer y Cynulliad ar ddelio â cheisiadau am weld gwybodaeth y mae'n ei dal, ewch i'n gwefan: www.information.wales.gov.uk

CYNLLUN CYDRADDOLDEB SENGL LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU A CHYNLLUNIAU GWEITHREDU 2008-2011 – FERSIYNAU DRAFFT

RHAGAIR GAN Y DR BRIAN GIBBONS AC, Y GWEINIDOG DROS GYFIAWNDER CYMDEITHASOL A LLYWODRAETH LEOL

Mae cyflwyno'r ddogfen hon, sef ein dogfen ymgynghori ar gyfer ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl cyntaf a'r cynlluniau gweithredu, yn garreg filltir i Lywodraeth y Cynulliad. Disgrifiwyd y cam hwn yn un "dewr", "blaengar" ac "uchelgeisiol iawn". Mae'r tri disgrifiad yn wir. Rydym yn gosod her inni'n hunain fel Llywodraeth y Cynulliad. Rydym am arwain drwy esiampl ac weithiau, mae angen llam o ffydd er mwyn gwneud hynny. Hyd y gwelwn ni, symud oddi wrth ymagwedd un maes at ymagwedd sawl maes yw'r ffordd orau ymlaen er mwyn gwella cyfleoedd bywyd i'n poblogaeth.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn adeiladu ar sail yr ymgynghori a fu ar fframwaith a blaenoriaethau ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn ystod mis Mawrth - Mehefin 2008.

Yn y broses honno, gofynnwyd am eich barn ynglŷn â'r blaenoriaethau lefel uchel, blaenoriaethau y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt, yn ein barn ni, er mwyn dileu'r anghydraddoldebau mewn cymdeithas. Cawsom sylwadau gan lawer ohonoch drwy amrywiol gyfryngau. Un neges gref a gyflëwyd oedd eich bod am inni ymgynghori â chi ynglŷn â'r Cynllun a'r cynlluniau gweithredu a ddeilliai o'n proses ymgynghori.

Credaf fod awydd ar led i ddarparu gwell gwasanaethau a gwell polisïau ar gyfer dinasyddion Cymru. Er mwyn gwneud hynny, mae angen inni ddeall a gwerthfawrogi'r amrywiol bobl sy'n creu cymunedau Cymru. Mae angen inni edrych ar bobl fel unigolion a chanddynt anghenion gwahanol a allai wynebu anfanteision o sawl tu.

Sylweddolwn ein bod yn cynhyrchu'r Cynllun hwn ar adeg pan fo'r gyfraith ym maes cydraddoldeb yn newid. Credwn ein bod yn cychwyn ar daith ddeinamig a chyffrous a bod y Cynllun yn cynnig sylfaen gadarn a blociau adeiladu inni ar gyfer newid.

Mae'n cynnig ffocws inni allu dathlu'r holl waith caled sydd wedi'i wneud hyd yn hyn. Er mwyn cydnabod buddsoddiad ein partneriaid a'n staff i gyrraedd y fan hon, rydym yn cynhyrchu Cynllun sy'n gyfrwng gwirioneddol i sicrhau newid.

Drwy ei ddatblygu, mae wedi rhoi cydraddoldeb ar flaen meddwl arweinwyr, rheolwyr a staff ac mae wedi cynnig modd o fynd i'r afael â diwylliant cynhwysol drwy sicrhau perchnogaeth ar bob lefel yn y sefydliad.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i gynnig arweiniad ond mae angen ymrwymiad a chyfraniad brwd gan ein partneriaid i gyd er mwyn gwireddu ein hymagwedd strategol.

Mae ein Cynllun yn dweud sut y byddwn yn hybu cydraddoldeb a sut y byddwn yn cyflawni'n dyletswyddau statudol (anabledd, hil a rhywedd). Byddwn yn rhoi'r un egwyddorion cyffredinol ar waith yn y meysydd cydraddoldeb newydd - oedran, crefydd neu gredo, cyfeiriadedd rhywiol a thrawsrywedd. Mae'n edrych ar sut y byddwn yn asesu effaith ein gwaith ar wahanol grwpiau a'r camau y byddwn yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith honno dros y tair blynedd nesaf. Bydd yn ceisio sicrhau bod cydraddoldeb ac egwyddorion hawliau dynol yn bwrw gwreiddiau yng ngwaith a diwylliant ein sefydliad.

Rydym wedi gwrando ar farn ystod eang o bartneriaid – grwpiau budd, darparwyr gwasanaethau, cymunedau budd a'r cyhoedd ehangach yn gyffredinol. Rydym wedi penderfynu canolbwyntio ar nifer o flaenoriaethau a fydd, yn ein barn ni, yn ein cynorthwyo i ddatblygu cyfle cyfartal ac i ddileu anghydraddoldeb a gwahaniaethu. Mae'r blaenoriaethau hyn yn adeiladu'n gadarn ar ein hymrwymiadau yn "Cymru'n Un". Fe'u datblygwyd gan Adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn gynlluniau gweithredu adrannol sy'n cyd-fynd â'r Cynllun hwn. Wrth ddatblygu'r rhain, mae adrannau wedi ystyried materion sy'n croesi'r meysydd ynghyd â chyfleoedd i gydweithio.

Credaf fod hwn yn gam sylweddol ymlaen wrth inni brif ffrydio cydraddoldeb a hawliau dynol yng ngwaith Llywodraeth y Cynulliad. Bydd yn ein tywys i greu gwell polisïau gyda'r nod o ddarparu gwell gwasanaethau sy'n diwallu anghenion holl bobl Cymru ar sail cydraddoldeb a chyfle cyfartal.

Fe'ch gwahoddaf i anfon eich sylwadau ataf ynglŷn â'r ddogfen ymgynghori hon ac ynglŷn â'r cynlluniau gweithredu er mwyn ein cynorthwyo i sicrhau bod cyfle cyfartal i holl ddinasyddion Cymru'n cael ei wireddu yn hytrach na'i fod yn fawr f wy na dyhead.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Dyma Gynllun Cydraddoldeb Sengl drafft cyntaf a chynlluniau gweithredu Llywodraeth y Cynulliad. Mae gweithio tuag at ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn ffordd allweddol o'n cynorthwyo i gadw'n hymrwymiad at y weledigaeth a geir yn "Cymru'n Un" sef economi ddeinamig, gwell iechyd, ffordd o fyw o safon a chymunedau cynaliadwy mewn Cymru amrywiol a dwyieithog. Bydd yn gymorth i gadw'n hymrwymiad i gymdeithas decach a chyfiawn.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn adeiladu ar sail yr ymgynghori a fu ar fframwaith a blaenoriaethau ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn ystod mis Mawrth - Mehefin 2008.

Yn y broses honno, gofynnwyd am eich barn ynglŷn â'r blaenoriaethau lefel uchel y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt, yn ein barn ni, er mwyn dileu'r anghydraddoldebau mewn cymdeithas.

Mae'r farn a'r sylwadau a gawsom yn ystod yr ymgynghori wedi bod o gymorth i oleuo datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl drafft hwn a'r cynlluniau gweithredu adrannol sy'n cyd-fynd ag ef.

Mae rhai o'r gweithgareddau sy'n ymddangos yn y cynlluniau gweithredu hyn yn ymrwymiadau a oedd yn rhan o gynlluniau a rhaglenni gwaith cynharach.

Datblygwyd eraill yn sgil ystyried materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac yn sgil yr adborth a gafwyd wrth ymgynghori.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau mewn ffyrdd sy'n ystyrlon i ddinasyddion ac sy'n diwallu eu hanghenion. Rydym wedi ymrwymo i weithio ar draws ffiniau sefydliadau a sectorau a byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau gwell gwasanaethau a gwell canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Bydd y Cynllun yn gymorth inni ddangos sut yr ydym yn cyflawni'n dyletswyddau dan y gyfraith gydraddoldeb fel y mae ar hyn o bryd. Mae'n dweud sut y byddwn yn hybu cyfle cyfartal i bawb, a sut yr ydym yn cydnabod amrywiaeth ac yn rhoi gwerth arni. Rydym am fynd y tu hwnt i gyflawni'n cyfrifoldebau cyfreithiol i hybu cyfle cyfartal a dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail anabledd, rhywedd a hil. Mae anghenion siaradwyr Cymraeg yn bwysig hefyd i Lywodraeth y Cynulliad ac ymdrinnir â hyn drwy gyfrwng y Cynllun Iaith Gymraeg.

Mae'r cynlluniau adrannol sy'n cyd-fynd â'r ddogfen hon yn cynnwys manylion y blaenoriaethau y dymunwn fynd ar eu trywydd dros y tair blynedd nesaf. Mae adolygiadau chwe-misol yn rhan o raglen gweithredu'r Cynllun er mwyn sicrhau y cawn gyfle i ystyried ein cynlluniau a'u diwygio ac i ystyried gofynion deddfwriaethol newydd wrth iddynt newid.

Wrth gynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Sengl, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod, er bod elfennau sy'n gyffredin i bob dyletswydd cyfrifoldeb, fod iddynt

hefyd eu helfennau gwahanol, penodol a'r rheini'n unigryw i bob un o'r tair dyletswydd. Mae'r rhain yn golygu bod pob dyletswydd yn unigryw ac yn arbennig o berthnasol i'w maes cydraddoldeb penodol.

Byddwn yn adeiladu ar lwyddiannau'n gwaith o ran hil, anabledd a rhywedd. Bydd angen inni weithio'n fwy effeithiol gyda'n partneriaid i gyd er mwyn camu ymlaen i wireddu'r agenda flaengar hon.

Blociau adeiladu'n gwaith ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol yw:

- Adeiladu sylfaen dystiolaeth gadarn sy'n ymwneud ag anghydraddoldebau.

- Sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn bwrw gwreiddiau wrth inni ddatblygu polisïau a strategaethau drwy ddefnyddio'r drefn Creu Polisïau Cynhwysfawr (Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb).

- Gweithio gyda'n rhanddeiliaid a'n partneriaid er mwyn bwrw ymlaen â'n gwaith.

- Sicrhau bod gan ddinasyddion Cymru lais mewn datblygu polisïau a'u rhoi ar waith.

- Ystyried a hybu cyfleoedd i weithio ar draws y meysydd a chydweithio.

- Monitro ac ystyried ein gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y bobl rydym yn eu gwasanaethu.

PENNOD 1

CYFLWYNIAD

“Dydw i ddim yn gwahaniaethu – rwy’n trin pawb yr un fath."

1.1 Mae cydraddoldeb a hawliau dynol o bwys inni i gyd. Mae Cymru’n datblygu’n genedl fwyfwy amrywiol. Mae ein proffil demograffig yn newid. Yn ogystal â hyn, mae’r patrymau mudo’n newid; ceir mwy o ymwybyddiaeth o wahanol hunaniaethau, crefyddau a diwylliannau ac mae nifer y bobl a chanddynt salwch tymor hir ac anabledd ar gynnydd. Hefyd, mae’r berthynas rhwng dynion a menywod a chyfansoddiad y teulu’n newid. Ar ben hynny, wrth i amgylchiadau byw pobl newid ac wrth iddynt ddewis ffyrdd newydd o weithio, rhaid inni edrych eto hefyd ar y rhwystrau sy’n achosi anfantais ac ar ffyrdd o ymdrin â’r gwahaniaethau sydd rhyngom.

1.2 Mae angen inni ddatblygu a choleddu’r manteision a ddaw inni yn sgil y ffaith ein bod yn boblogaeth fwy amrywiol ac yn fwy integredig a chynhyrchu polisïau a gwasanaethau ymatebol a hyblyg er mwyn diwallu anghenion cymunedau. Mae’r Cynllun drafft hwn yn cynnig y cyfleoedd inni wneud hyn. Bydd yn gyfrwng cryf i sbarduno'r newidiadau sy'n angenrheidiol er mwyn eu gwireddu.

1.3 Efallai fod trin pawb yr un fath yn ymddangos yn beth teg a rhesymol i’w wneud. Ond nid oes yn rhaid inni dyrchu’n ddwfn iawn cyn gweld enghreifftiau lle gall “trin pobl yr un fath” danseilio’n gallu i ddarparu gwasanaethau cyfartal a theg. Er enghraifft, gall cynnal cyfarfod ar adeg benodol beri anawsterau i aelodau rhai crefyddau sy’n gweddïo’n ddefodol ar adegau arbennig. Nid bod y mewnbwn yr un fath sy’n bwysig ond bod y canlyniadau’r un fath.

1.4 Yn ystod ein proses ymgynghori, tynnwyd sylw at y ffaith y gall y ffordd y mae adeilad wedi’i godi atal rhai grwpiau weithiau rhag defnyddio’r gwasanaethau a gynigir ynddo. Er enghraifft, nid oes ramp neu lifft mewn rhai adeiladau ac mae hynny’n atal defnyddwyr cadair olwyn rhag manteisio ar wasanaethau.

1.5 Weithiau, gall yr hyn sy'n ymddangos yn deg ar y wyneb arwain at ddiffyg cyfle cyfartal a chanlyniadau annheg. Roedd un sefydliad, lle'r oedd mwyafrif y staff ar raddfa gyflog benodol yn fenywod, yn honni nad oedd yn gwahaniaethu yn erbyn menywod. Eu dadl oedd bod dynion a oedd ar yr un raddfa gyflog yn cael yr un tâl yn union. Fodd bynnag, roedd y sefydliad yn defnyddio graddfa gyflog uwch ar gyfer staff a wisgai iwnifform a dynion oedd mwyafrif y rheini yn y sefydliad. Yr un math o waith yr oedd y staff ar y ddwy raddfa gyflog yn ei wneud a gwelwyd bod y sefydliad yn gwahaniaethu yn erbyn menywod oherwydd bod y drefn gwerthuso swyddi a’r gweithdrefnau graddio’n amhriodol.

1.6 Gwahaniaethu uniongyrchol yw pan fydd rhywun yn cael ei drin yn llai ffafriol mewn meysydd gweithgarwch penodol nag y caiff, y cafodd neu y cai rhywun arall ei drin, mewn sefyllfa gymharol, oherwydd eu rhyw, eu hil, eu hanabledd ac ati. Er enghraifft, mae tybio y bydd menyw a chanddi blentyn yn gyflogai annibynadwy, a phenderfynu peidio â’i chyflogi oherwydd hynny, yn enghraifft o wahaniaethu uniongyrchol.

1.7 Bydd gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd os pennir amodau neu ofynion y bydd rhai grwpiau'n ei chael yn arbennig o anodd cydymffurfio â hwy: er enghraifft, os bydd hysbyseb am swydd yn dweud ei bod yn rhaid i bob ymgeisydd am y swydd fod dros 1.8m (6tr) o daldra, gallai hynny wahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn menywod.

1.8 Bob blwyddyn, bydd arolwg Byw yng Nghymru'n gofyn cwestiynau i sampl o bobl, gan gynnwys nifer o gwestiynau am agweddau, gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid. Dangosodd arolwg dinasyddion 2007 fod 12% o'r atebwyr yn dweud iddynt brofi gwahaniaethu, erlid neu aflonyddu yn ystod y pum mlynedd diwethaf a hil oedd y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd. Felly, i lawer o bobl, mae gwahaniaethu'n rhywbeth y maent yn dal i'w wynebu. Nid trwy drin pawb yr un fath â'i gilydd y rhoddir terfyn arno, ond drwy ymrwymiad cyson i newid agweddau'r cyhoedd ac agweddau sefydliadau.

1.9 Gall perthyn i grŵp penodol ddylanwadu'n sylweddol ar gyfleoedd bywyd. Yr her i ni, Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw:

- Datblygu polisïau sydd er budd anghenion amrywiol Cymru ac yn eu diwallu;
- Rhoi gwerth ar y cyfoeth a ddaw yn sgil amrywiaeth;
- Sicrhau cyfle cyfartal.

Ynglŷn â'r Cynllun

1.10 Bydd llawer o bobl yn perthyn i un o'r meysydd neu i fwy nag un o'r meysydd y mae'r dyletswyddau statudol yn ymwneud â hwy. Gall pobl eraill nad ydynt wedi'u cynnwys y meysydd hyn, eu cael eu hunain yn destun gwahaniaethu a rhagfarn. Dyna pam y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi penderfynu datblygu Cynllun Cydraddoldeb Sengl a hwnnw wedi'i seilio ar egwyddorion tegwch, parch, cydraddoldeb ac urddas i bawb. Bydd hyn yn gymorth inni gyflawni'r ymrwymiad sydd yn ein hagenda flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru, "Cymru'n Un" a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2007, sef, creu cymdeithas decach a chyfiawn.

1.11 Datblygwyd y Cynllun hwn drwy ymgynghori â llawer o unigolion a sefydliadau ac â'n staff. Rydym wedi gwrando ar yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym ac mae'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu wedi'n cynorthwyo i ddatblygu'n cynlluniau gweithredu adrannol.

1.12 Mae dyfyniadau penodol sydd wedi'u tynnu o'r adborth i'r ymgynghori i'w gweld ar ddechrau pob Pennod ac mae manylion y rhai yr ymgynghorwyd â hwy i'w gweld yn Atodiad 2. Ceir crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig ar y wefan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – http://new.wales.gov.uk/topics/equality/?lang=cy.

1.13 Bydd y Cynllun yn gymorth inni ddangos sut yr ydym yn cyflawni'n dyletswyddau dan y gyfraith gydraddoldeb fel y mae ar hyn o bryd. Mae'n dweud sut y byddwn yn hybu cyfle cyfartal i bawb, a sut y byddwn yn cydnabod amrywiaeth ac yn rhoi gwerth arno. Rydym am fynd y tu hwnt i gyflawni'n cyfrifoldebau cyfreithiol i

hybu cyfle cyfartal a dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail anabledd, rhywedd a hil.

1.15 Gall dylanwadu ar agweddau, ymddygiad a gweithredoedd a'u newid fod yn broses hir. Mae'r Cynllun yn ymwneud â'r chwe maes, sef: oedran, anabledd, rhywedd a thrawsrywedd, hil, crefydd neu gredo a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'n cynnig fframwaith er mwyn i Lywodraeth y Cynulliad fwrw ymlaen i hybu cydraddoldeb. Rydym am iddo fod wedi'i seilio ar egwyddorion hawliau dynol, sef, tegwch, parch, cydraddoldeb ac urddas, gan ganolbwyntio ar anghenion holl ddinasyddion Cymru.

1.16 Gall mynd ati i gyflawni'n dyletswyddau cydraddoldeb drwy ymdrin ag un maes ar y tro godi rhwystrau rhag inni wireddu'n hymrwymiad i hybu cyfle cyfartal. Rhaid inni ystyried anghenion y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf – y rhai agored i niwed a'r rhai dan anfantais. Rhaid inni fynd i'r afael â'n dyletswyddau statudol – y pethau "y mae'n rhaid inni eu gwneud" er mwyn sicrhau ein bod yn cadw at ofynion deddfwriaeth benodol. Credwn hefyd y dylem geisio cadw at yr un safonau uchel ym mhopeth a wnawn. Rydym wedi penderfynu gweithio tuag at "gysoni drwy gryfhau", lle bynnag y bo modd, yr ymrwymiad a wnaethom eisoes ym maes oedran, crefydd neu gredo a chyfeiriadedd rhywiol a thrwy fwrw ymlaen â'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu yn sgil y prosiect yr ydym yn ei gydgyllido gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar weithio "ar draws meysydd neu ar fwy nag un maes ar y tro".

1.17 Ni fwriedir i'r ddogfen hon gael ei hysgrifennu ac wedyn ei gadael ar y silff. Rydym am gael adborth ynglŷn â'n cynlluniau gweithredu, a byddwn yn eu hadolygu ac yn eu diweddaru. Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau cynnydd bob chwe mis.

Hyrwyddwyr Cydraddoldeb

1.18 Mae gan bob adran Hyrwyddwr Cydraddoldeb Mae Hyrwyddwyr Cydraddoldeb wedi chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu'n Cynllun a'r cynlluniau gweithredu. Mae ganddynt rôl hollbwysig o ran sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol yn cael eu hybu ar draws Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Hyrwyddwyr yn llais o blaid cydraddoldeb ac yn gyfrwng i sicrhau newid. Maent yn herio ac yn codi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol ar draws eu meysydd gwaith. Ceir Rhwydwaith Hyrwyddwyr Cydraddoldeb a bydd hwnnw'n cyfarfod i drafod materion a rhannu arferion nodedig. Roedd yr Hyrwyddwyr Cydraddoldeb yn allweddol o ran cynorthwyo i ddatblygu'r blaenoriaethau lefel uchel, canlyniadau a chynlluniau gweithredu a gymeradwywyd gan Uwch Swyddogion. Fel rhan o'n hymrwymiad i brif ffrydio cydraddoldeb, byddwn yn adolygu rôl yr Hyrwyddwyr ym mhob rhan o Lywodraeth y Cynulliad, ac yn datblygu rhagor o gymorth iddynt fel un o ymrwymiadau'n Cynllun,

Y Gymraeg

1.19 Yn draddodiadol, mae Cymru wedi bod yn genedl ddwyieithog. Rydym wedi ymrwymo i ehangu'r defnydd ar y Gymraeg mewn mwy o gymunedau ledled Cymru.

1.20 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i greu Cymru ddwyieithog, fel y nodir yn “Iaith Pawb”, ei chynllun gweithredu ar gyfer y Gymraeg. Wrth gwrs, mae deddfwriaeth benodol yn ymwneud â’r iaith, sef Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae’r Llywodraeth yn gweithredu’n unol â’i Chynllun Iaith Gymraeg, a luniwyd dan y Ddeddf – ac a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae’r Cynllun yn disgrifio sut yr ymdrinnir â'r Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru – ac wrth inni gynllunio a datblygu polisïau, gwasanaethau a chynlluniau newydd. Mae Adran 78 Deddf Llywodraethu Cymru 2006 hefyd yn ei gwneud yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi strategaeth sy’n esbonio sut y bwriadant hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg, ac yn ogystal â hynny, mae’n nodi’r ddyletswydd i fabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg.

1.22 Ar ben ein dyletswyddau dan ein Cynllun Iaith Gymraeg, bwriadwn ystyried yn llawn faterion sy’n ymwneud â’r Gymraeg i’r graddau eu bod yn berthnasol i’n dyletswyddau ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol.

PENNOD 2

“Hoffwn gael gwybod rhagor am yr hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud.”

RÔL LLYWODRAETH Y CYNULLIAD

2.1 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn arfer pwerau dros ystod eang o faterion sydd wedi'u datganoli a'r rheini fwy neu lai'n effeithio ar bob agwedd ar fywyd yng Nghymru. Mae hefyd yn cynnig Mesurau'r Cynulliad ar faterion y mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru'r pŵer i ddeddfu yn eu cylch.

2. 2. Cynhelir etholiadau i 60 sedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru bob pedair blynedd ddechrau mis Mai. Bydd pob gwleidydd a etholir yn dod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a gelwir y rhain yn Aelodau'r Cynulliad, neu'n ACau. Daw'r Gweinidogion sy'n ffurfio Llywodraeth Cynulliad Cymru o blith yr aelodau hyn.

2.3 Mae'r ddau sefydliad – Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru – yn ddau gorff hollol ar wahân o safbwynt cyfreithiol. Llywodraeth y Cynulliad yw'r weithrediaeth ac mae'n cyflawni swyddogaethau llywodraethu yng Nghymru. Y Cynulliad Cenedlaethol yw'r ddeddfwrfa, sy'n creu cyfreithiau i Gymru, yn craffu ar waith y Llywodraeth ac yn awdurdodi ei gwariant drwy gyfrwng penderfyniadau ynglŷn â'r Gyllideb.

2. 4 Mae'r Adrannau'n ymdrin â meysydd gwaith penodol ond mae ganddynt gyfrifoldeb i sicrhau bod polisïau a gwasanaethau'n “gydgysylltiedig” a'u bod yn cydweithio pan fydd polisi'n croesi meysydd cyfrifoldeb.

2.5 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys:

- Y Prif Weinidog.
- Gweinidogion Cymru.
- Y Cwnsler Cyffredinol.
- Dirprwy Weinidogion Cymru.

2.6 Mae darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu hyd at 12 o Weinidogion a Dirprwy Weinidogion yng Nghymru. Golyga hyn na all Llywodraeth y Cynulliad fod yn fwy na 14 o ran nifer, gan gynnwys y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol.

2.7 Ym mlwyddyn ariannol 2007-2008, mae gan Lywodraeth y Cynulliad gyllideb o £14 biliwn ac mae'n cyflogi dros 6,300 o staff.

2.8 Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad yn cael eu darparu drwy gyfrwng cyrff sydd y tu allan i Lywodraeth y Cynulliad, megis llywodraeth leol, cyrff y GIG a'r Trydydd Sector.

PENNOD 3

“Mae angen i egwyddorion tegwch, parch, cydraddoldeb, urddas ac annibyniaeth fod yn sail amlwg i’r Cynllun er mwyn iddo ategu parch at hawliau dynol.”

HAWLIAU DYNOL – RHOI’R DINESYDD WRTH WRAIDD EIN GWAITH

3.1 Cynllun yw hwn sy’n cynnwys y meysydd cydraddoldeb hyn: oedran, anabledd, rhywedd a thrawsrywedd, hil, crefydd a chredo a chyfeiriadedd rhywiol. Ond, fel y soniwyd uchod, rhan bwysig o’r Cynllun hwn yw sicrhau ein bod yn hybu tegwch, parch, cydraddoldeb ac urddas yng ngwaith Llywodraeth y Cynulliad, a dylai hynny ymestyn y tu hwnt i’r meysydd cydraddoldeb hynny.

3.2 Dywed Erthygl 14 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sydd wedi’i hymgorffori yng nghyfraith Prydain drwy gyfrwng Deddf Hawliau Dynol 1998:

“Y caiff pobl arfer yr hawliau a’r rhyddid a ddisgrifir yn y Confensiwn hwn heb fod gwahaniaethu ar unrhyw sail megis ar sail rhyw, hil, lliw, iaith, crefydd, gwleidyddiaeth neu safbwynt o fath arall, cenedl neu darddiad cymdeithasol, cysylltiad â lleiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth neu statws arall”.

3.3 Yr hyn a wna’r ddogfen hon yw datgan ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad, nid yn unig i weithio’n unol â’r gyfraith, ond i gymryd camau i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac i sicrhau bod cydraddoldeb ac ystyried tegwch, parch, cydraddoldeb ac urddas, a bod ystyriaethau o’r fath wrth wraidd y penderfyniadau a wna, y polisïau a lunnir ganddi a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu.

3.4 Ein hymagwedd fydd symud y tu hwnt i drin hawliau dynol fel petaent yn rhywbeth y mae angen cydymffurfio â hwy neu’n fater o reoli risg, ac yn hytrach eu trin fel rhywbeth sy’n coleddu gwerthoedd urddas, cydraddoldeb, tegwch, parch ac annibyniaeth, sy’n ategu parch at hawliau dynol ac sy’n rhoi urddas a gwerth i bob unigolyn. At y diben hwn, bwriadwn ystyried sut yr ydym yn cydymffurfio â hawliau dynol wrth inni roi'n swyddogaethau ar waith ac wrth inni ddatblygu'n polisïau. Bwriadwn hybu ymwybyddiaeth o hawliau dynol ymhlith llunwyr polisïau a darparwyr gwasanaethau. Ein bwriad yw cynnwys hyn yn rhan o'r broses Creu Polisïau Cynhwysol. Gweler Pennod 6 am wybodaeth ynglŷn â’r broses honno.

3.5 Mae’n deg dweud, er bod llawer o waith wedi’i wneud o ran hybu deddfwriaeth hil, rhywedd ac anabledd, nad oes cymaint wedi'i wneud o ran hybu hawliau dynol a’r meysydd cydraddoldeb eraill. Dyma faes lle’r ydym yn benderfynol o’i wella.

3.6 Rydym wedi bod yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i godi proffil hawliau dynol yng Nghymru. Ymhlith y prosiectau hynny, hyrwyddwyd a dathlwyd Blwyddyn Cyfle Cyfartal Ewrop yn 2007 a chroesawyd Cynhadledd Hawliau Dynol i Gaerdydd ym mis Mawrth 2008 ar y cyd â Sefydliad Hawliau Dynol Prydain, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

3.7 O ran blaenoriaethau ac ymrwymiadau i egwyddorion hawliau dynol:

- Byddwn yn cefnogi ac yn galluogi hyfforddiant er mwyn codi ymwybyddiaeth o hawliau dynol a pherthynas hynny â swyddogaethau, prosesau, llunio polisïau a darparu gwasanaethau ar gyfer staff Llywodraeth y Cynulliad.
- Gyda'n partneriaid, byddwn yn datblygu ac yn cynnal seminar blynyddol ynglŷn â hawliau dynol ar gyfer awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru.
- Fel rhan o Flwyddyn Dysgu am Hawliau Dynol 2009, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhagor o gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o Hawliau Dynol.
- Byddwn yn integreiddio egwyddorion Hawliau Dynol i'r broses Creu Polisïau Cynhwysol, gan weithio gyda rhanddeiliaid megis Sefydliad Hawliau Dynol Prydain a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ac adolygu'r broses honno'n rheolaidd.
- Byddwn yn sicrhau bod ein holl Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb yn ystyried effaith bosibl polisïau o ran y saith maes cyfrifoldeb sy'n rhan o'n cylch gorchwyl ac o ran hawliau dynol.
- Byddwn yn rhoi sylw dyledus i ddyletswyddau rhyngwladol y Deyrnas Unedig;
- Yn benodol, byddwn yn rhoi ystyriaeth briodol i ymrwymiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r rhain wedi'u crynhoi yn y 'Saith Nod Craidd' sy'n sail i holl bolisïau a rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i benodi Comisiynydd Plant annibynnol, un o'r sefydliadau hawliau dynol allweddol ar gyfer plant.
- Byddwn yn ystyried canfyddiadau ymchwiliad hawliau dynol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'u defnyddio i oleuo'n gwaith yn y dyfodol.

PENNOD 4

“Rydym yn cynorthwyo i lunio cynnwys y cynlluniau gweithredu – pan gânt eu drafftio, mae’n hanfodol eich bod yn ymgynghori â ni yn eu cylch"

Ein Blaenoriaethau

4.1 Wrth ymgynghori ynglŷn â fframwaith a blaenoriaethau Cynllun Cydraddoldeb Sengl cynhwyswyd Datganiadau Lefel Uchel a chanlyniadau a oedd wedi'u datblygu gan adrannau ar draws Llywodraeth y Cynulliad.

4.2 Yn sgil yr adborth i’r rhain, llwyddwyd i nodi blaenoriaethau ar gyfer datblygu a llunio cynlluniau gweithredu'r adrannau. Mae'r cynlluniau gweithredu hynny'n cyd-fynd â'r cynllun hwn a byddant yn gyfrwng ymarferol i’w roi ar waith.

4.3 Isod, ceir golwg gyffredinol ar yr hyn y mae pob adran yn ei wneud a blaenoriaethau’r adrannau hynny fel y’u rhestrir yn y cynlluniau gweithredu terfynol:

4.4 Yr Adran Materion Cyfansoddiadol, Cydraddoldeb a Chyfathrebu

4.4.1 Mae’r Adran Materion Cyfansoddiadol, Cydraddoldeb a Chyfathrebu yn cefnogi Gweinidogion Cymru er mwyn eu cynorthwyo i wireddu a chyfleu eu polisïau a’u rhaglenni ac mae’n gweithio’n fewnol gyda staff i’w hysbysu ynglŷn â datblygiadau perthnasol o fewn Llywodraeth y Cynulliad.

4.4.2 Mae’r Adran hefyd yn cynorthwyo Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod pobl yn deall ei hymrwymiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth, bod y rheini’n cael eu rhoi ar waith a bod yr ymrwymiad statudol i hybu cyfle cyfartal i bawb yn sail ac yn sylfaen effeithiol i bolisïau a rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad.

4.4.3 Blaenoriaethau’r cynllun gweithredu:

- Bydd y polisïau’n cydnabod amrywiaeth pobl Cymru ac yn rhoi sylw i’r amrywiaeth honno. Caiff hyn ei gyfleu mewn ffordd sy’n diwallu anghenion ein cynulleidfaoedd.

- Ceisiadau ac enwebiadau am Anrhydeddau a Phenodiadau Cyhoeddus sy’n adlewyrchu’n gyffredinol amrywiaeth bywyd Cymru.

4.5 Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

4.5.1 Nod yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yw sbarduno gwell gwasanaethau i blant a phobl ifanc, ac yn y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant sy'n cefnogi pobl Cymru wrth iddynt gyflawni eu potensial academaidd, cymdeithasol ac economaidd gan sicrhau gwell canlyniadau i blant, i ddysgwyr, i gymunedau, i fusnesau ac i gyflogwyr.

4.5.2 Blaenoriaethau’r cynllun gweithredu:

- Hybu lles pob plentyn a pherson ifanc, gan ddarparu: cymorth iddynt gyflawni hyd eu heithaf; manteision addysg ffurfiol, dysgu anffurfiol a dysgu yn y gymuned a hawliau a haeddiant plant a phobl ifanc.

- Gwella'r canlyniadau i ddysgwyr a gwella'u lles drwy gyfrwng: cwricwlwm a threfniadau asesu cysylltiedig sy'n seiliedig ar sgiliau; diwygio cymwysterau a datblygu'r fframwaith credydau ar gyfer pob oedran; canolbwyntio ar effeithiolrwydd ysgolion a datblygiad proffesiynol ymarferwyr.

- Arwain cyfraniad y system addysg a hyfforddiant ôl-16 at alluogi pob dysgwr, gan gynnwys y rheini o grwpiau dan anfantais a'r rhai sydd heb eu cynrychioli'n deg, er mwyn sicrhau Cymru hynod addysgedig a sgilgar a gwlad sy'n gyforiog o gyfleoedd ym maes swyddi, drwy:

- Adnabod a blaenori anghenion cyflogwyr, dysgwyr, cymunedau a Llywodraeth y Cynulliad o ran gwybodaeth a sgiliau, a thrwy sbarduno sefydliadau addysg a hyfforddiant i fod yn hyblyg, o safon uchel ac yn ymatebol i anghenion cenedlaethol a lleol.

- Hybu cynhwysiant, lleihau anfantais a mynd i'r afael â thlodi cyfleoedd addysgol drwy ddatblygu rhaglenni, polisïau a chynhyrchion sy'n rhoi sylw i anghenion dysgwyr o bob oedran, gan gynnwys y rheini y mae ganddynt anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n cael eu hallgàu, a darparu cymorth ariannol yn llwyddiannus ar gyfer myfyrwyr a dysgwyr eraill mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.

4.6 Adran yr Economi a Thrafnidiaeth

4.6.1 Gweledigaeth Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yw: creu economi fywiog yng Nghymru, gan sicrhau twf cadarn a chynaliadwy drwy ddarparu cyfleoedd i bawb. Rhai o feysydd gwaith yr adran hon yw hybu diwydiant a buddsoddi, polisi trafnidiaeth, a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

4.6.2 Blaenoriaethau'r cynllun gweithredu:

- Darparu gwasanaeth cymorth i fusnesau ledled Cymru sy'n wirioneddol agored i bawb ac sy'n ystyried anghenion pob grŵp cydraddoldeb.

- Darparu system drafnidiaeth effeithlon a hwylus i bawb sy'n gymorth i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi diffyg cydraddoldeb.

- Integreiddio ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn well wrth adfywio

4.7 Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

4.7.1 Mae Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai wedi ymrwymo i greu amgylchedd cynaliadwy i bobl Cymru ac i genedlaethau'r dyfodol. Mae'n annog datblygu cynaliadwy drwy gyfrwng y strategaeth amgylcheddol, drwy'r system cynllunio a thrwy reoli'n tirweddau mewn modd cynaliadwy. Mae'n cymryd camau i

leihau cyfraniad Cymru at newid yn yr hinsawdd ac yn gweithredu i liniaru effaith y newid hwn e.e. drwy amddiffynfeydd rhag llifogydd.

4.7.2 Blaenoriaethau'r cynllun gweithredu:

- Mynediad at gartrefi teilwng – sicrhau bod pob teulu ym mhob cymuned, a pha faint bynnag o fodd sydd ganddynt, yn gallu fforddio cartref teilwng.

- Cynllunio defnydd tir ffisegol er mwyn adlewyrchu anghenion.

- Gwella'r amgylchedd ffisegol.

- Mynediad at yr amgylchedd naturiol.

4.8 Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd a CAFCASS

4.8.1 Mae gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd a CAFCASS i gyd rolau sy'n cynorthwyo i ddarparu system iechyd o'r radd flaenaf ac i hybu iechyd a lles yng Nghymru. Gyda'i gilydd, mae'r tri chorff yn gyfrifol am ariannu, am lunio polisi gofal iechyd a pholisi iechyd cyhoeddus, am adolygu, arolygu a rheoleiddio darpariaeth y gwasanaethau cymdeithasol, gofal oedolion a gofal plant ac am ddarparu cymorth a chyngor, grantiau a gofal gwirfoddol yn y gymuned.

4.8.2 Blaenoriaethau'r cynllun gweithredu:

- Galluogi gwelliannau o ran tegwch mynediad ac o ran y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a dylanwadu ar hynny drwy sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol yn rhan o brif ffrwd cynllunio strategol a datblygu'r gweithlu.

- Gwella iechyd a lles pobl Cymru.

- Gwella'r canlyniadau i blant a'u teuluoedd sy'n rhan o achosion teulu dros y tair blynedd nesaf.

4.9 Yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad

4.9.1 Mae'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn cefnogi prif agenda Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer newid, integreiddio, a datblygu perfformiad ar draws y Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru.

Y nod yw rhoi dinasyddion wrth wraidd cynllunio gwasanaethau. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran ansawdd, sicrhau mynediad, a chanlyniadau – ac mae'r disgwyliadau hynny'n prysur godi. Mae'n rhaid i fwy a mwy o wasanaethau, a'r rheini'n rhai sy'n perfformio'n well, bontio'r ffiniau rhwng darparwyr traddodiadol er mwyn bod yn effeithiol – a hynny'n anad dim ym maes cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol. Rôl yr Adran yw galluogi darparwyr i gyflawni'r her hon.

4.9.3 Blaenoriaethau'r cynllun gweithredu:

- Datblygu model sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus gyda set o egwyddorion llywodraethu a gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus wrth ei wraidd a'r rheini'n coleddu cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

- Rhoi ar waith y fframwaith llywodraethu cysylltiedig ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru a hwnnw'n un sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, gan adnabod cyfleoedd i wella'u hymagwedd at gydraddoldeb ac amrywiaeth o ran darparu gwasanaethau.

- Ymgysylltu â 3000 o bobl bob blwyddyn o bob cwr o'r sectorau cyhoeddus yng Nghymru mewn rhaglenni datblygu cenedlaethol a rhyngwladol, gan gyflwyno ystod o ymyriadau sy'n hybu cydraddoldeb a chyfiawnder.

- Ei gwneud yn haws i fusnesau bach yng Nghymru ennill contractau cyhoeddus drwy sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer contractau yr un mor agored i bob unigolyn a sefydliad.

- Sicrhau bod dinasyddion yn ymgysylltu fwyfwy â gwella cynllunio a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng arferion a dulliau cyfranogol sy'n rhoi sylw i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

4.10 Yr Adran Materion Gwledig a Threftadaeth

4.10.1 Mae'r Adran Materion Gwledig wedi ymrwymo i gynorthwyo ffermwyr i ddod yn fwy cynaliadwy o safbwynt economaidd, o safbwynt cymdeithasol ac o safbwynt yr amgylchedd. Mae'n cynorthwyo i hybu iechyd a lles anifeiliaid. Mae'r Adran hefyd yn cynghori ynglŷn â materion gwledig ehangach ac yn prawfesur polisïau'r Cynulliad drwyddo draw o ran eu heffaith ar gefn gwlad.

4.10.2 Blaenoriaethau'r cynllun gweithredu:

- Sicrhau bod cynhwysiant yn bwrw gwreiddiau er mwyn darparu gwasanaeth cynaliadwy o safon i ddiwallu anghenion amrywiol pawb sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru.

4.10.3 Nod yr Adran Treftadaeth hefyd yw datblygu gwasanaethau sy'n rhoi'r cyfle i bawb fwynhau'r profiadau diwylliannol a hanesyddol cyfoethog ac amrywiol y mae gan Gymru i'w cynnig a chael budd ohonynt. Mae'r Adran yn hybu twristiaeth hefyd.

4.10.4 Blaenoriaethau'r cynllun gweithredu:

- Annog pob grŵp i gyfrannu at natur diwylliant y Gymru gyfoes ac i gyfrannu at lunio'r diwylliant hwnnw.

- Cynnig cyfleoedd i bob grŵp yn y gymdeithas fanteisio mwy ar weithgareddau diwylliannol.

- Hybu a gwarchod diwylliant sy'n dathlu amrywiaeth Cymru a'i thraddodiadau lu.

4.11 Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

4.11.1 Mae'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn gyfrifol am wella ac am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus rhagorol yng Nghymru, gyda phwyslais penodol ar ddiogelu a chefnogi pobl agored i niwed, brwydro yn erbyn allgàu cymdeithasol a lleihau anghydraddoldeb. Mae hefyd yn cynnig cymorth ac arian i lywodraeth leol wireddu'r amcanion hyn.

4.11.2 Blaenoriaethau'r cynllun gweithredu:

- Hybu Cyfiawnder Cymdeithasol drwy leihau effeithiau tlodi ar blant yng Nghymru.

- Cynorthwyo'r rheini sydd wedi'u gwthio i gyrion cymdeithas drwy wella cynhwysiant ariannol a sicrhau bod pawb yn gallu bod yn rhydd rhag tlodi.

- Hybu cymuned fwy cydlynol, un sy'n rhannu'r un gwerthoedd a lle bydd yr un cyfle i bawb ym mhob rhan o gymdeithas Cymru.

- Gwella'r mynediad at wasanaethau craidd i grwpiau agored i niwed.

4.12 Yr Adran Adnoddau Dynol

4.12.1 Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn cynnig ystod o wasanaethau AD i'n staff, gan gynnwys darparu hyfforddiant a datblygiad, recriwtio mewnol ac allanol, rheoli perfformiad, Iechyd a Diogelwch, iechyd galwedigaethol, cyflogau a phensiynau.

4.12.2 Blaenoriaethau'r cynllun gweithredu:

- Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymdrechu i fod yn sefydliad y bydd pobl Cymru'n dymuno gweithio iddo.

- Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymdrechu i fod yn sefydliad lle na fydd staff yn wynebu gwahaniaethu o unrhyw fath a lle y rhoddir gwerth ar amrywiaeth.

PENNOD 5

“Mae’n hollbwysig sicrhau bod y wybodaeth iawn ar gael er mwyn inni ddechrau o’r lle iawn ac er mwyn inni allu mesur cynnydd. Mae’n gwbl hanfodol gwneud rhagor o waith ar y sylfaen dystiolaeth ynglŷn â chydraddoldebau er mwyn i hyn ddigwydd.”

CASGLU’R DYSTIOLAETH A'I DADANSODDI

5.1 Mae’n hanfodol casglu a dadansoddi’r dystiolaeth er mwyn creu cynllun cydraddoldeb ystyrlon. Defnyddiwyd ymchwil a data sydd ar gael eisoes ym maes cydraddoldeb i oleuo cynlluniau tystiolaeth, a defnyddiwyd tystiolaeth am gydraddoldeb, yn dystiolaeth ansoddol ac yn dystiolaeth feintiol, wrth ddatblygu'r cynllun.

5.2 Lle bo hynny’n briodol ac yn bosibl, byddwn yn casglu ac yn dadansoddi data yn ôl oedran, anabledd, rhywedd a thrawsrywedd, hil, crefydd a chredo a chyfeiriadedd rhywiol. Byddwn yn gweithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg gyda golwg ar faterion sy’n ymwneud â defnydd/dewis iaith. Bwriedir i hyn gyflawni’n gofynion cyfreithiol dan y dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a chynnig tystiolaeth i gefnogi'n hymrwymiad i ddarparu ar gyfer meysydd cydraddoldeb nad ydynt ar hyn o bryd yn dod o dan y dyletswyddau hyn.

5.3 Mae gennym wybodaeth am rai meysydd cydraddoldeb ond gwyddom fod bylchau, yn enwedig o gwmpas y 'meysydd newyddach". Mae prosiect ar waith sy’n adolygu’r holl dystiolaeth ynglŷn â chydraddoldeb sydd ar gael ar hyn o bryd o ran y themâu polisi allweddol. Nododd pob adran feysydd ar gyfer yr adolygiad ar sail eu blaenoriaethau o blith nifer o raglenni gwaith, gan gynnwys “Cymru’n Un”, datblygu strategaethau a’r Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb. Bydd yr adolygiad hwn yn gymorth inni gynhyrchu canllawiau a fydd yn cynnig cyngor manwl inni am y dystiolaeth sydd ar gael ynglŷn â chydraddoldeb a sut mae defnyddio’r dystiolaeth honno er mwyn datblygu ac adolygu polisïau.

5.4 Cyhoeddir canllawiau ar ein gwefan yn cynnig gwybodaeth ynglŷn â'r dystiolaeth gynyddol am gydraddoldeb. Y nod yw cynnig ffynhonnell gwybodaeth i lunwyr polisïau er mwyn iddynt ddatblygu ac adolygu polisïau, cynnal Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb a datblygu eu rhaglenni ymchwil ym maes cydraddoldeb.

5.5 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymwneud yn llawn â’r gweithgareddau rhyng-lywodraethol yn sgil yr Adolygiad o Ddata Cydraddoldeb a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2007. Mae’r Gyfarwyddiaeth Ystadegol yn gweithredu ar sail yr argymhellion ynglŷn â lledaenu data sy’n ymwneud â chydraddoldeb:

- Mae tudalen thema cydraddoldeb lle ceir dolenni at yr holl ddata sydd wedi’u cyhoeddi eisoes a dadansoddiadau sy’n ymwneud â chydraddoldeb, ar gael ar dudalennau gwe’r ystadegau.

- Mae rhaglen o adroddiadau ystadegol a data sydd wedi’u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth y Cynulliad wrthi’n cael ei datblygu er mwyn sicrhau ei bod yn haws cael gafael ar ddadansoddiadau’r ffynonellau sydd ar gael eisoes .

- Cyhoeddwyd Ffocws Ystadegol ar Oedran ym mis Medi 2008.

- Dadansoddwyd y cwestiwn ynglŷn ag anabledd yn yr Arolwg o'r Gweithlu Llafur a chyhoeddwyd y canlyniadau ym mis Medi 2008.

- Bwriedir dadansoddi arolygon sampl-fawr er mwyn pennu i ba raddau y bydd gweithio ar sail cyfartaledd dros-nifer-o-flynyddoedd yr arolwg yn cynyddu ystod y dadansoddiadau posibl ar gyfer ethnigrwydd a chrefydd.

- Cyhoeddwyd Mynegai Amddifadedd yn benodol ar gyfer plant ym mis Medi 2008.

5.6 Rydym wedi bod yn gweithio'n glos gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wrth ddatblygu'r cwestiynau ar gyfer Cyfrifiad 2011, gan gynnwys cynnal profion penodol yng Nghymru. Mae'r Cyfrifiad yn ffynhonnell o bwys ar gyfer data cydraddoldeb a bydd y Cyfrifiad nesaf yn cynnwys cwestiwn am hunaniaeth genedlaethol, yn ogystal ag am ethnigrwydd a chrefydd. Profwyd cwestiwn ynglŷn â'r brif iaith a siaredir hefyd.

5.7 Ar ôl cyhoeddi Adroddiad UNICEF "An Overview of Child Wellbeing in Rich Countries" yn 2007, penderfynodd Llywodraeth y Cynulliad grynhoi ystod o ddata a thystiolaeth ymchwil a gyhoeddwyd ynglŷn â Lles Plant a Phobl Ifanc, er mwyn cynnig darlun cyfannol a chynorthwyo i fonitro tueddiadau. Cynhyrchir adroddiad tebyg ar Les Pobl Hŷn erbyn mis Tachwedd 2009.

5. 8 Dadansoddir yr Arolwg Staff Blynyddol yn fanwl yn ôl y grwpiau cydraddoldeb er mwyn sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad yn gallu cael gafael ar dystiolaeth ar gyfer ei staff yn ôl y grwpiau hynny.

5. 9 Er mwyn datblygu'n hymrwymiad i ddarparu tystiolaeth gadarn ynglŷn â chydraddoldeb i oleuo'n gwaith creu polisi a'i roi ar waith, ac er mwyn bwrw ymlaen â'r agenda cydraddoldeb a hawliau dynol, byddwn yn:

- Comisiynu papurau ynglŷn â'r materion sy'n codi ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol.

- Datblygu a chynnal seminarau i drafod y materion hynny ac i ddadlau yn eu cylch.

- Parhau i ddadansoddi'r Arolwg Staff Blynyddol. Eleni, bydd hyn hefyd yn cynnwys adolygu'r cwestiynau demograffig ar gyfer yr Arolwg Staff nesaf er mwyn sicrhau eu bod yn cadw at yr arferion gorau; a darparu tystiolaeth o ganfyddiadau Arolwg Staff 2008 ar gyfer grwpiau trafod gyda staff anabl yn Llywodraeth y Cynulliad.

- Adeiladu sylfaen dystiolaeth gadarn ym maes cydraddoldeb a fydd yn sail ar gyfer creu polisïau a'u rhoi ar waith ac ar gyfer y broses Creu Polisïau Cynhwysol.

- Cyhoeddi'n canfyddiadau ar y rhyngrwyd ar ffurf a fydd ar gael yn hwylus i bawb.

PENNOD 6

"Bydd ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhopeth a wnawn yn gymorth i bobl ddeall a dathlu amrywiaeth Cymru ac i hybu cydlyniant cymunedol."

CREU POLISÏAU CYNHWYSOL (ASESU'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB)

Cyflwyniad

6.1 Un o'r prif resymau dros ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Sengl yw y bydd yn gymorth inni ddatblygu polisïau a gwneud penderfyniadau sy'n diwallu'n well anghenion y rheini y bydd y polisïau a'r penderfyniadau hynny'n effeithio arnynt. Bydd ein model ar gyfer asesu'r effaith ar gydraddoldeb, a elwir yn "Creu Polisïau Cynhwysol" yn gymorth inni wneud hyn.

6.2 Yn y bennod hon, yr ydym wedi disgrifio:

- sut y byddwn yn rhoi'r model hwnnw ar waith ar hyn o bryd;
- sut, yng ngoleuni adolygiad Reddenhill Consulting o'r model a chanlyniadau'r ymgynghori cyhoeddus ynglŷn â'n Cynllun Cydraddoldeb Sengl, y bwriadwn ei wella er mwyn iddo ffurfio rhan ganolog o'n Cynllun newydd;
- sut, pan lansir ein Cynllun newydd, y bwriadwn wella'r model presennol wrth fynd rhagom.

Sut y mae'r broses Creu Polisïau Cynhwysol yn gweithio ar hyn o bryd

6.3 Pwrpas Creu Polisïau Cynhwysol yw prif ffrydio ystyried y dyletswyddau cydraddoldeb ym mhob un o'n polisïau. Gwneir hyn drwy gynorthwyo adrannau Llywodraeth y Cynulliad i ystyried sut y gallai polisi newydd neu bolisi diwygiedig effeithio ar bobl mewn ffyrdd gwahanol ar sail hil, rhyw, anabledd, oedran cyfeiriadedd rhywiol neu grefydd (neu gredo neu ddiffyg credo arall). Gelwir yr effeithiau hyn, ni waeth a ydynt yn fwriadol ai peidio, yn "effeithiau gwahaniaethol". Os gwelir bod effeithiau gwahaniaethol, gellir cymryd camau i ddileu neu i liniaru'r effeithiau negyddol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hybu cydraddoldeb.

6.4 Mae arweiniad ynglŷn â sut mae dilyn y broses Creu Polisïau Cynhwysol ar gael i bob aelod o staff Llywodraeth y Cynulliad ac fe'i cyhoeddir ar y rhyngrwyd.

6.5 Porth Polisïau Llywodraeth y Cynulliad sy'n sbarduno cam cyntaf yr asesiad effaith ar gyfrifoldeb wrth Greu Polisïau Cynhwysol. Mae'r Porth Polisïau'n gyfrwng i gynnig arweiniad i staff Llywodraeth y Cynulliad wrth iddynt ddatblygu polisi. Cyfeiriwn at yr asesiadau effaith ar gydraddoldeb hyn fel Asesiadau Cydraddoldeb y Porth Polisïau.

6.6 Yn ystod y broses asesu, byddwn yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ynglŷn â lefel yr effaith wahaniaethol debygol y gallai'r polisi ei chael ar unrhyw un o'r grwpiau cydraddoldeb ac yn ystyried ansawdd y dystiolaeth honno. Mesurir ansawdd y

dystiolaeth drwy ddefnyddio'r disgrifiadau hyn: **cryf; boddhaol, anfoddhaol** neu **dim tystiolaeth.** Mesurir lefel yr effaith wahaniaethol debygol drwy ddefnyddio'r disgrifiadau hyn: **isel, canolig, uchel** neu **anhysbys.** Os daw'n amlwg bod diffyg tystiolaeth ynglŷn â mater yn ystod unrhyw gam, gellir comisiynu rhagor o ymchwil.

6.7 Nid oes angen cynnal Asesiad Effaith Llawn bob tro. Os yw'r dystiolaeth yn awgrymu nad oes effaith wahaniaethol mewn gwirionedd neu nad yw hynny'n debygol, penderfynir peidio â bwrw ymlaen i gynnal Asesiad Effaith Llawn gyda chytundeb yr Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

6.8 Os awgryma'r asesiad bod effaith wahaniaethol sylweddol mewn gwirionedd neu y gallai fod effaith o'r fath ar grŵp cydraddoldeb, neu os oes cyfle i hybu cydraddoldeb, bydd angen Asesiad Effaith Llawn er mwyn nodi'n fwy manwl yr holl oblygiadau ar gyfer pob un o'r grwpiau cydraddoldeb. Yn ogystal â hyn, bydd gofyn cynnal Asesiad Effaith Llawn ar holl bolisïau strategol Llywodraeth y Cynulliad. Mae hyn yn golygu bod gofyn nodi pa gamau y gellir eu cymryd i ddileu neu i liniaru unrhyw effeithiau gwahaniaethol negyddol [nad oes modd eu cyfiawnhau]. Dim ond gyda chytundeb yr Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y gellir cymeradwyo Asesiadau Effaith Llawn a'r cynlluniau gweithredu sy'n deillio ohonynt. Cyhoeddir canlyniadau'r asesiad a'r cynlluniau gweithredu.

6.9 Mae rhagor o wybodaeth am ein proses Creu Polisïau Cynhwysol yn http://new.wales.gov.uk/topics/equality/publications/inclusivepolicy/?lang=en (ar gael yn Saesneg yn unig)

Cymhwyso'r broses Creu Polisïau Cynhwysol i'r Cynllun hwn

6.10 Defnyddiwyd ein proses Creu Polisïau Cynhwysol i asesu'r Cynllun hwn. Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'n dyletswyddau, adolygwyd ein cynllun gan ymgynghorwyr allanol sydd hefyd wedi'n cynorthwyo wrth inni ddatblygu cynlluniau gweithredu'r adrannau. Bydd y polisïau a'r arferion a gynhwysir yng nghynlluniau gweithredu'r adrannau'n mynd drwy'r broses Creu Polisïau Cynhwysol hefyd (gweler isod ynglŷn â newid y model wrth fynd rhagom) wrth iddynt gael eu datblygu ac wrth ddilyn gweithdrefnau creu a gweithredu polisïau arferol Llywodraeth y Cynulliad.

6.11 Cyhoeddir canlyniadau'r asesiadau hyn ar ein gwefan. Drwy hyn, byddwn yn sicrhau bod y gweithgareddau sy'n sail i'n Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn wir yn gwella'r sefyllfa o ran dileu gwahaniaethu anghyfreithlon a hybu cyfle cyfartal, a'u bod yn dryloyw ac yn agored i bawb graffu arnynt.

Newid ein model Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth inni fynd rhagom

6.12 Fel rhan o'n hymrwymiad i wella'n barhaus, rydym wedi arbrofi â'r broses Creu Polisïau Cynhwysol gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a phartneriaid yn y sector statudol a'r trydydd sector. Cynhaliwyd adolygiad annibynnol hefyd i roi ffynhonnell wybodaeth gyfoethog inni ac mae hynny wedi bod o gymorth o ran goleuo'n ffordd o feddwl a'm hymrwymiad i gryfhau'n model.

6.13 Mae adroddiad yr arolwg i'w weld yn http://new.wales.gov.uk/topics/equality/inclusivepolicy/?lang=cy Dyma'r argymhellion allweddol a ddeilliodd o'r adroddiad hwnnw:

6.13.1 Dylid adlewyrchu natur strategol lefel uchel rhai o bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y broses Creu Polisïau Cynhwysol.

Credwn ei bod yn briodol i'r broses Creu Polisïau Cynhwysol ei gwneud yn ofynnol i swyddogion sy'n llunio polisii nodi'r cysylltiad (os oes cysylltiad) rhwng y polisi hwnnw a datganiadau lefel uchel a chynlluniau gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Sengl Llywodraeth y Cynulliad. Hyd yn oed os nad oes cysylltiad o'r fath, dylai'r broses Creu Polisïau Cynhwysol, yn ein barn ni, fynnu bod y polisi'n cael ei sgrinio yn y lle cyntaf i weld a yw'n berthnasol i'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol (fel y bwriadwn eu cymhwyso ar draws pob un o'r meysydd cydraddoldeb) ac i nodi unrhyw oblygiadau ar gyfer hawliau dynol.

Bydd gofyn i holl bolisïau ac arferion Strategol Llywodraeth y Cynulliad sy'n mynd drwy'r Porth Polisïau cael eu sgrinio yn y lle cyntaf i weld a ydynt yn berthnasol i'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol ac i ganfod unrhyw oblygiadau ar gyfer hawliau dynol. Mae'n debygol y bydd gofyn i'r rhan fwyaf o'r polisïau hyn, os nad pob un, gael asesiad effaith llawn. Ein nod yw sicrhau bod elfen o gymesuredd yn cael ei chynnwys yn y broses Creu Polisïau Cynhwysfawr er mwyn sicrhau bod y broses yn fwy effeithiol o ran ein cynorthwyo i weld pa bolisïau a allai arwain at y canlyniadau gorau o ran cyflawni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol gan ein bod yn bwriadu eu rhoi ar waith ar draws yr holl grwpiau cydraddoldeb. Bwriadwn sicrhau hefyd fod y broses yn ein galluogi'n well i ganfod goblygiadau'r polisïau a ddatblygwn a'r swyddogaethau a roddwn ar waith ar gyfer hawliau dynol.

6.13.2 Dylid mynd i'r afael â'r dulliau gwahanol a ddefnyddir i gwblhau'r asesiadau
- mae angen egluro'r pecyn a'r canllawiau a ddylai gynnwys esboniad o'r gofynion cyfreithiol.

6.13.3 Cydweddu'n well er mwyn cyflawni'r dyletswyddau cydraddoldeb statudol.

Bydd y broses Creu Polisïau Cynhwysol wrth inni fynd rhagom yn gofyn bod llunwyr polisïau'n dilyn llwybr sydd â strwythur iddo ac fe gyhoeddir hwnnw. Bydd y broses a'r canllawiau hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cyflawni'n dyletswyddau o ran statud, cydraddoldeb a hawliau dynol, bydd yn esbonio beth yw'r rheini a bydd y sgrinio cychwynnol ar gyfer perthnasedd yn gwbl gysylltiedig â'n dyletswyddau statudol ym maes cydraddoldeb (bwriadwn eu rhoi ar waith ar draws yr holl grwpiau cydraddoldeb).

6.13.4 Byddai'r broses yn elwa o ychwanegu adran sy'n cyfarwyddo aseswyr i nodi canlyniadau sy'n dangos sut y gellir mesur y newidiadau o ran cynhwysiant.

Cynhwysir cyfnod adolygu ar ôl rhoi polisi a/neu arfer ar waith. Bydd hyn yn cynnig cyfle i nodi unrhyw effeithiau gwahaniaethol anfwriadol a ddaw yn ei sgil ac i fynd i'r afael â hwy.

6.13.5 Rhaid i'r cynlluniau gweithredu ddeillio o'r dystiolaeth yn yr asesiad.

Rhoddir mwy o bwyslais ar ganlyniadau. Bydd cynlluniau gweithredu'r broses Creu Polisïau Cynhwysol yn nodi sut y gellir mynd i'r afael â chanfyddiadau asesiadau, eu datrys neu eu lliniaru, a bydd yr asesiadau eu hunain yn deillio o'r dystiolaeth a ddarparwyd ar eu cyfer. Bydd y broses Creu Polisïau Cynhwysol ddiwygiedig yn ei gwneud yn glir ei bod yn broses fyw sy'n esblygu ac a gaiff ei hadolygu.

6.13.6 Dilyniant mwy cyson i'r dangosyddion a'r meini prawf ar gyfer dadansoddi tystiolaeth.

6.13.7 Byddai'r broses hefyd yn elwa o'r canlynol:

6.13.7.1 Cydnabyddiaeth gliriach mai pwrpas y cam sgrinio yw gweld a oes perthnasedd drwy ddefnyddio tystiolaeth nad yw ar y pwynt hwnnw'n asesiad effaith llawn.

Bydd y cam cychwynnol yn canolbwyntio ar sgrinio ar gyfer perthnasedd yng nghyswllt y dyletswyddau cydraddoldeb statudol cyffredinol a phenodol (gan ein bod yn bwriadu eu rhoi ar waith ar draws yr holl grwpiau cydraddoldeb) ynghyd â goblygiadau ar gyfer hawliau dynol.

Adolygir ein canllawiau i gynorthwyo swyddogion i ystyried yn llawnach sut mae asesu'r dystiolaeth dan sylw. Er enghraifft, rhoddir gradd ymddiriedaeth uwch i ymchwil a gomisiynwyd ac a gyhoeddwyd gan un o adrannau'r llywodraeth gan ddefnyddio methodoleg gydnabyddedig a chadarn nag a roddir i ganfyddiadau ymchwil ar raddfa lai o bosibl a gyhoeddwyd gan ffynhonnell lai adnabyddus. Rydym wrthi'n datblygu dangosyddion a meini prawf diwygiedig fel rhan o'r broses hon.

6.13.7.2 Mewnbwn gan staff sy'n wybodus ynglŷn â llywodraethu a rheoli risg.

Bydd staff sy'n wybodus ynglŷn â llywodraethu a rheoli risg yn ymwneud â'r broses datblygu a sicrhau ansawdd. Bydd yr arweiniad yn cyfeirio at strwythurau llywodraethu Llywodraeth y Cynulliad ac at sut y gall y broses Creu Polisïau Cynhwysfawr gyfrannu at reoli risg.

6.13.7.3 Mwy o eglurder o ran y dangosyddion a'r meini prawf a ddefnyddir yn yr adran dystiolaeth.

Diwygir y dangosyddion a'r meini prawf i gynnwys pwysoliad sy'n adlewyrchu i ba raddau y gellir dibynnu ar y dystiolaeth dan sylw ac ymddiried ynddi.

6.14 Newidir pethau wrth inni fynd rhagom yng ngoleuni'r uchod a bydd hynny'n cryfhau'r broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb. Efallai y bydd angen rhagor o newidiadau hefyd ar sail yr adborth a gawn yn sgil y broses ymgynghori a chroesawn sylwadau am ein cynigion neu unrhyw sylwadau eraill y dymunwch eu cynnig ynglŷn

â sut y dylai Llywodraeth y Cynulliad gynnal Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb ac asesu'r goblygiadau ar gyfer hawliau dynol.

Y Camau Nesaf

6.15 Ein bwriad yw cynhyrchu proses integredig a fydd yn mynd i'r afael â'r pwyntiau a nodwyd yn yr adolygiad, a byddwn yn rhoi sylw i'r holl bwyntiau a nodwyd yn 6.13, a fydd yn gymorth i adrannau Llywodraeth y Cynulliad ystyried sut y gallai'r ffordd y mae'n rhoi ei swyddogaethau ar waith, yn datblygu ac yn gweithredu ei pholisïau neu ei harferion, effeithio ar bobl mewn gwahanol ffyrdd ar sail hil, rhywedd neu drawsrywedd, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol neu gredo crefyddol (neu gredo arall neu ddiffyg credo).

6.16 Elfen bwysig yw ein bod yn bwriadu ystyried sut rydym yn cydymffurfio â hawliau dynol wrth inni roi'n swyddogaethau ar waith ac wrth inni ddatblygu'n polisïau. Bydd ein model ar gyfer asesu'r effaith ar gydraddoldeb yn rhoi sylw i'r canlynol:

- Oedran, anabledd, rhywedd a thrawsrywedd, hil, crefydd neu gredo neu ddiffyg credo a chyfeiriadedd rhywiol.

- Bydd hefyd yn profi polisïau ac arferion a'r ffordd y rhoddir swyddogaethau ar waith i weld a ydynt yn cydymffurfio â hawliau dynol.

- Bydd yn creu cysylltiadau cryf â'r broses llunio polisïau a hynny'n benodol drwy ei chysylltu â'n porth polisïau.

- Bydd yn cynnwys mecanwaith adborth clir a fydd yn sicrhau bod asesu'r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei ystyried yn broses fyw a fydd yn caniatáu i Lywodraeth y Cynulliad ddatblygu a darparu gwell polisïau ac arferion – nid ymarfer "ticio blychau" mohono.

PENNOD 7

“Mae’n amlwg bod Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i annog grwpiau sydd heb eu cynrychioli’n deg i wneud cais am swyddi yn eu sefydliad. Fodd bynnag, mae’n bwysig hefyd sicrhau nad ydym yn cyflogi unigolion er mwyn creu’r argraff ein bod yn cyflawni’n dyletswydd. Hefyd, mae'n bwysig nad yw ‘annog gwell cynrychiolaeth ar draws y meysydd cyfrifoldeb’ yn gwneud i weithwyr deimlo’u bod yn cael eu gwthio i dwll colomen neu’n cael eu defnyddio i brofi pwynt.”

EIN RÔL FEL CYFLOGWR

7.1 Ein nod yw bod yn sefydliad y mae pobl yn dymuno gweithio iddo ac yn un y maent yn falch o fod yn rhan ohono. Yn ogystal â darparu gweithle lle nad oes gwahaniaethu o unrhyw fath yn erbyn staff, mae Llywodraeth y Cynulliad am allu dangos ei bod yn rhoi gwerth ar amrywiaeth, yn ei hystyr ehangaf un.

7.2 Drwy feincnodi, gallwn ddangos ein bod yn gwella'n barhaus fel cyflogwr o'r naill flwyddyn i'r llall a hynny yng nghyd-destun pob maes amrywiaeth. Rydym yn dal i gadw’n safon aur ym maes rhywedd; y safon arian ym maes hil ac nid ydym ond 2% yn brin o’r nod o ennill y safon arian ym maes anabledd. Llwyddwyd i godi hefyd o’r 51^{fed} safle i’r 43^{ydd} yn 2008 ymhlith 100 cyflogwr gorau’r DU ar gyfer cydraddoldeb i Lesbiaid, Hoywon a Phobl Ddeurywiol ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn http://assembly/aegis/Equality%20and%20Siversity%20Unit/neewspage1.htm

7.3 Rydym yn dal i ehangu’n ffocws ac o 2008 ymlaen byddwn hefyd yn cymryd rhan yn y drefn meincnodi ar gyfer oedran a’r Mynegai ar gyfer Pobl Drawsrywiol y Gweithle.

7.4 Gwelwyd cynnydd hefyd o ran hybu agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl, a chanlyniad hynny oedd bod Llywodraeth y Cynulliad wedi cael Gwobr Ddiemwnt gan Fforwm Anabledd y Cyflogwyr ar gyfer sefydliadau a oedd yn rhagori o ran yr arferion gorau ym maes anabledd yn 2007, a hynny'n benodol am eu gwaith yn recriwtio pobl anabl.

7.5 Gwelwyd nifer y gweithwyr â datganiad anabledd yn dyblu a mwy rhwng 2004 a 2007 o 2.9% i 6.2%. Cynyddodd canran y staff anabl yng ngraddau uwch y gwasanaeth sifil hefyd o 1% i 4.2%. Digwyddodd hyn o ganlyniad uniongyrchol i weithio ochr yn ochr â staff anabl er mwyn newid y pethau sy’n gymorth i wneud yr amgylchedd gweithio’n amgylchedd cynhwysol.

7.6 Rydym yn gweithio’n glos gyda ‘Mynediad i Waith’ er mwyn sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i gynorthwyo staff ar leoliad a staff parhaol. Rhoddir gwybod i bobl anabl am gyfleoedd i gael swyddi drwy dargedu cyhoeddiadau penodol, megis ‘Able’, ‘Disability Now’, ‘Remploy’ a ‘Radar’. Nod Llywodraeth y Cynulliad yw cynnwys delweddau cadarnhaol o bobl anabl a gyflogir yn ein gweithlu yn ein deunyddiau marchnata a sicrhau bod ein cyfathrebu’n cydymffurfio â’r canllawiau ynglŷn â gwybodaeth hygyrch. Mae hyn yn mynd y tu

hwnt i'r gofynion cyfreithiol sylfaenol a'r nod yw gosod esiampl o'r arferion gorau ledled Cymru.

7.7 Rydym yn defnyddio'r Cynllun 'Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl', sy'n sicrhau y gwarentir cyfweliad i ymgeiswyr anabl. Cynhaliwyd sawl cynllun i helpu pobl anabl i gael gafael ar swydd, gan gynnwys trefniant partneriaeth gyda Scope. Wrth werthuso'r Cynllun, gwelwyd bod Llywodraeth y Cynulliad wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth o'i diwylliant cadarn o blaid anabledd yn ogystal â chwalu stereoteipiau o bobl anabl ymhlith cydweithwyr.

7.8 Wrth recriwtio staff o'r tu allan i fandiau sy'n is na bandiau uwch y gwasanaeth sifil, mae'r Llywodraeth yn dal i recriwtio mwy o fenywod nag o ddynion, sef 58% o'r cyfanswm. Drwy setliad cyflog 2007-10, llwyddwyd i gael mecanwaith ymarferol er mwyn mynd i'r afael ag un o'n prif flaenoriaethau – cyflog cyfartal. Roedd y setliad hwn yn cynnal y momentwm a grëwyd yn sgil dyfarniad cyflog 2001 a dyfarniad 2004, gan adeiladu ar sail ein hymrwymiad i brif ffrydio cydraddoldeb a mynd i'r afael â chyflogau isel drwy ddarparu system sydd:

- yn pennu cyfradd darged ar gyfer pob band cyflog;

- yn galluogi perfformwyr effeithiol i gyrraedd y gyfradd darged mewn 5 mlynedd neu lai; ac yn caniatáu i staff ragweld yn gywir sut y bydd eu cyflog yn newid gyda threigl amser.

7.9 Roedd y setliad yn flaengar hefyd o ran ei fod yn cydnabod bod Llywodraeth y Cynulliad yn gorff gwahanol ar ôl ei huno â'r cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2006. Felly, bwriad y setliad oedd mynd i'r afael â'r gwahaniaethau rhwng cyflogau staff y gwahanol sefydliadau a unwyd. Byddwn yn parhau i asesu effaith y setliad bob blwyddyn o safbwynt cyflogau cyfartal.

7.10 Comisiynwyd gwaith ymchwil yn ôl yn 2005, a oedd yn canolbwyntio ar gyflogeion presennol a darpar gyflogeion o ystod eang o grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n deg. Yn sgil ei ganfyddiadau, llwyddwyd i deilwra'n gweithgarwch allgymorth a chynyddu'n ddramatig nifer ac ystod y cyfleoedd a gynigiwn ar gyfer lleoliadau yn ystod y 3 blynedd diwethaf. Byddwn yn cynnig 12 cynllun lleoli i grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n deg. Datblygwyd pum cynllun newydd i bobl nad ydynt yn raddedigion ers mis Ebrill 2007. Hefyd, cynhwysir dau gynllun lleoli Women Connect First a anelir at fenywod o leiafrifoedd ethnig, Rhaglen i Deithwyr, Rhaglen Cyflogaeth â Chymorth Elite i bobl anabl ag anawsterau dysgu, anghenion arbennig a phroblemau iechyd meddwl. Mae'r cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig a benodwyd yn 2007/08 yn cael ei ystyried yn ganlyniad cadarnhaol yn sgil ein gweithgareddau allgymorth a'n cynlluniau lleoli.

7.11 Rydym yn cynnig amrywiaeth o bolisïau gyda'r nod o gynorthwyo staff i gydbwyso bywyd gwaith a bywyd gartref ac i ymdopi â chyfrifoldebau personol yn ogystal ag â rhai o ddigwyddiadau mawr bywyd. Ein nod wrth hybu polisïau cydbwyso bywyd a gwaith yw dangos faint yr ydym yn gwerthfawrogi'n gweithwyr, a chydnabod bod angen hyblygrwydd yn y berthynas rhwng cyflogwr a gweithiwr o fewn cyd-destun sy'n cefnogi'n hamcanion o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth. Dyma enghreifftiau o ddatblygiadau polisi diweddar yn y maes hwn:

- Absenoldeb Statudol ar gyfer Mamolaeth a Mabwysiadu - diwygiwyd y polisïau ar gyfer mamolaeth a mabwysiadu i gynnwys y ddarpariaeth newydd i weithwyr er mwyn iddynt fod yn absennol am hyd at 52 wythnos ar gyfer geni a mabwysiadu.

- Iechyd Meddwl yn y Gweithle – ysgrifennwyd arweiniad i gyflogwyr ar gyfer rheoli iechyd meddwl yn y gweithle.

7.12 Cymerir camau ymarferol a rheolaidd i wneud staff yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cydraddoldeb. Cynhwysir ymwybyddiaeth o gydraddoldeb wrth ddarparu hyfforddiant cynefino i bob aelod newydd o'r staff ac mae sawl cwrs cydraddoldeb penodol ar gael yn fewnol. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r dyletswyddau, o ddeddfwriaeth ac o'r arferion gorau, darparwyd sesiynau penodol pwrpasol ym mhob un o'n swyddfeydd ynglŷn â hil, oedran, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd a chredo. Rhoddir cyngor a hyfforddiant sydd wedi'i deilwra'n arbennig i reolwyr hefyd fel sy'n briodol. Mae cymwyseddau staff wedi'u cynnwys mewn fframwaith gan ei gwneud yn glir bod eu cyfrifoldebau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan hanfodol o'u rôl.

7.13 Mae gennym drefniadau i fonitro a yw ymgeiswyr am swyddi, y rhai a gyflogir eisoes, y rhai sydd wedi llwyddo i gael dyrchafiad, y rhai sydd wedi cael eu hyfforddi, y rhai sy'n dilyn y drefn gwyno neu ddisgyblu a'r rhai sy'n ymadael â Llywodraeth y Cynulliad yn anabl (ac mae'r un peth yn wir am y meysydd cydraddoldeb eraill). Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, defnyddiwyd dulliau traddodiadol i gasglu data ynglŷn â'r staff a gyflogir gan Lywodraeth y Cynulliad. Cyn uno nifer o Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad â'r Llywodraeth yn 2006, llwyddwyd i gael gwybodaeth am 93% wrth fonitro anabledd, hil a rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd a chredo. Erbyn hyn, defnyddir system electronig i gasglu'r wybodaeth ochr yn ochr â chofnod personol unigolyn. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol ac am grefydd a chredo. Cynhwysir y wybodaeth hon yn ein hadroddiad cydraddoldeb blynyddol fel cyflogwr.

7.14 Byddwn yn casglu ac yn cadw data am staff i'n cynorthwyo i ddatblygu polisïau a gwasanaethau newydd er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried anghenion newidiol ac amrywiol ein sefydliad a hefyd oherwydd ein bod wedi ymrwymo i sicrhau bod ein gweithlu'n adlewyrchu poblogaeth Cymru.

7.15 Byddwn hefyd yn monitro proffil y staff o ran anabledd, mewn arolygon staff. Enghraifft o weithredu ar sail y wybodaeth a gesglir yw'r ffordd y bu uwch reolwyr yn ymgynghori â staff anabl ynglŷn â'r pryderon a godwyd ganddynt yn arolwg 2008.

7.16 Mae Llywodraeth y Cynulliad ac Ochr yr Undebau Llafur wedi ymrwymo i gydweithio. Mae'r naill a'r llall yn gytûn mai'r ffordd orau o gyflawni nodau ac amcanion y Cynulliad yw sicrhau bod y rheolwyr a'r undebau llafur yn gweithio gyda'i gilydd mewn ysbryd cydweithredol. Rydym yn gytûn ynglŷn â'r nodau isod:

- Ymrwymiad i lwyddiant Lywodraeth y Cynulliad ac i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus o safon ar gyfer pobl Cymru;

- Creu amgylchedd gweithio lle rhoddir gwerth ar staff fel adnodd pwysicaf Llywodraeth y Cynulliad;

- Hybu diwylliant yn y gweithle lle rhoddir gwerth ar amrywiaeth a lle mae cyfle cyfartal yn rhywbeth sy'n digwydd mewn gwirionedd;

- Sefydlu Llywodraeth y Cynulliad fel patrwm o gyflogwr yng Nghymru, i bobl eraill ddilyn ei hesiampl.

7.17 Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn dal i gyfrannu at agenda'r gwasanaeth sifil drwyddi draw, sef prif ffrydio cydraddoldeb drwy rannu a chymharu'r arferion gorau. Byddwn yn cyfrannu at y Rhwydwaith Hyrwyddwyr Amrywiaeth er mwyn monitro a gwerthuso'n cynnydd, ochr yn ochr â sefydliadau eraill yn y gwasanaeth sifil.

Ein Gwaith yn y Dyfodol

7.18 Canolbwyntir ar 3 chanlyniad o ran cydraddoldeb:

- Denu'r gronfa dalent ehangaf. Yr amcan allweddol yw cael gweithlu sy'n cynrychioli amrywiaeth poblogaeth Cymru. Rydym yn agos at wireddu hyn ar lefel genedlaethol o ran hil ac anabledd a byddwn yn gosod targedau yn y dyfodol i adlewyrchu poblogaethau lleol hefyd.
- Sicrhau bod rheolwyr ar bob lefel yn dal i fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau corfforaethol a statudol o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol a'u bod yn eu deall. Er mwyn adeiladu ar sail yr ymrwymiad hwn, bydd gofyn i staff a rheolwyr unigol ddangos sut y maent wedi cyflawni eu hamcanion o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Meithrin gallu staff drwy gyfrwng dysgu a datblygu priodol. Rhoddir cymorth penodol i staff sy'n perthyn i leiafrif drwy gymryd camau cadarnhaol i'w helpu i gyflawni hyd eu heithaf.

PENNOD 8

“Mae’n bwysig defnyddio modelau rôl sydd â’r profiad iawn ac sy’n cynrychioli pob maes cydraddoldeb, a’r rheini’n adlewyrchu’n fras amrywiaeth Cymru.”

PENODIADAU CYHOEDDUS

8.1 Ledled Cymru, ar lefel leol a chenedlaethol, sefydlir pwyllgorau i gynnig cyngor annibynnol ac i ddarparu gwasanaethau ym mhob maes o fywyd beunyddiol. Bydd pobl a benodir i swyddi cyhoeddus yn eistedd ar bwyllgorau ac yn rhannu eu profiadau a’u gwybodaeth ar gyfer eu cymuned leol neu ar gyfer y wlad drwyddi draw. Er bod angen gwybodaeth arbenigol ar gyfer rhai o’r penodiadau cyhoeddus hyn, nid yw hynny'n wir am lawer ohonynt, ond ar gyfer pob un, mae angen ymrwymiad, amser a theimlad angerddol at y pwnc. Mae angen profiad o gymryd rhan mewn cyfarfodydd ac ysbryd cymunedol cryf hefyd ar bobl sy’n ystyried gwneud cais am swydd gyhoeddus.

8.2 Mae’n bwysig bod amrywiaeth pobl Cymru’n cael ei hadlewyrchu mewn penodiadau cyhoeddus. Dim ond os rhoddir anogaeth frwd i ystod eang o ymgeiswyr a darpar fodelau rôl gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus y mae modd gwireddu hyn.

8.3 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd camau cadarnhaol i annog menywod, pobl anabl a grwpiau lleiafrifoedd ethnig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus. Er enghraifft, gall ymgeiswyr anabl ofyn am gael eu hystyried ar gyfer cynllun gwarantu cyfweliad, neu am gael y ffurflenni cais yn y fformat sydd orau ganddynt, megis print bras neu Braille.

8.4 Anfonir hysbysebion am swyddi cyhoeddus hefyd i dros 70 o sefydliadau sy’n ymwneud â grwpiau cydraddoldeb megis Anabledd Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol, Rhwydwaith Menywod Lleiafrifoedd Ethnig a Llais Menywod.

8.5 Fel rhan o ymgyrch codi ymwybyddiaeth, cynhaliwyd cyfarfodydd â sefydliadau i annog grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n deg i wneud cais am benodiad cyhoeddus. Ategwyd hyn drwy gynnal ymgyrch hysbysebu, a gychwynnwyd ym mis Chwefror 2008, sy’n dangos pobl o grwpiau sydd heb eu cynrychioli’n deg ac sydd wedi'u penodi i swydd gyhoeddus fel modelau rôl. Mae cyrsiau hyfforddi ar gael hefyd i gynorthwyo darpar ymgeiswyr gyda’r broses penodi.

8.6 Rydym yn annog pobl i ymwneud mwy â’r broses penodiadau cyhoeddus ar gyfer dethol pobl i wneud swyddi allweddol yng Nghymru. Yn ddiweddar, cynhaliwyd ymgyrchoedd penodi cyhoeddus i recriwtio Comisiynydd Plant a Chomisiynydd Pobl Hŷn. Gwahoddwyd panel o blant a phobl ifanc ar gyfer swydd y Comisiynydd Plant a mudiadau pobl hŷn ar gyfer swydd y Comisiynydd Pobl Hŷn i gynnal y broses benodi ochr yn ochr â phanelau Llywodraeth y Cynulliad ac mewn partneriaeth â hwy.

ATODIAD 1

"Croesewir datblygu Cynllun Cydraddoldeb Sengl Llywodraeth y Cynulliad. Mae'n gam blaengar a dyma'r ffordd orau ymlaen o sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu prif ffrydio *mewn gwirionedd.*"

DATBLYGU'R CYNLLUN CYDRADDOLDEB SENGL A'I ROI AR WAITH

Prif Ffrydio Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Wrth ddatblygu'r Cynllun hwn, rydym wedi canolbwyntio ar integreiddio egwyddorion cydraddoldeb, tegwch, parch ac urddas yng ngwaith beunyddiol Llywodraeth y Cynulliad. Rydym am:

- Adeiladu ar yr ymrwymiadau yn ein cynlluniau cydraddoldeb blaenorol;
- Dangos sut rydym yn cyflawni'r dyletswyddau cyfreithiol sy'n ymwneud â chydraddoldeb ym maes anabledd, rhywedd a hil;
- Integreiddio'r Cynllun yn llwyr â gweledigaeth a gwerthoedd Llywodraeth y Cynulliad, sef rhoi gwerth ar bobl, sicrhau canlyniadau a chyflawni rhagoriaeth;
- Grymuso gwahanol grwpiau ar draws cymdeithas;
- Sicrhau ein bod yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â phob carfan o'r gymuned er mwyn deall eu hanghenion yn well ac er mwyn sicrhau bod ein polisïau'n adlewyrchu'r adborth a gawn ganddynt ac yn mynd i'r afael ag ef;
- Asesu polisïau newydd "gan ystyried yr effaith a gânt o ran oedran, anabledd, y rhywedd a thrawsrywedd, hil, crefydd/credo a diffyg credo, cyfeiriadedd rhywiol, a hawliau dynol wrth iddynt gael eu datblygu a'u gweithredu;
- Monitro a gwerthuso'n cynnydd yn barhaus, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni o ran ein blaenoriaethau, ein canlyniadau a'n gweithredoedd;
- Rhannu arferion nodedig ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol.

Gweithio Gyda'n Gilydd

Mae rhoi llais cryfach i bobl ym maes gwasanaethau cyhoeddus wrth wraidd "Creu'r Cysylltiadau". Casgliad Adolygiad Beecham "Ar Draws Ffiniau" oedd bod angen gwneud rhagor yng Nghymru er mwyn i wasanaethau cyhoeddus ganolbwyntio mwy ar y dinesydd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i gynnwys dinasyddion Cymru wrth ddatblygu'r polisïau, y strategaethau a'r rhaglenni a luniwn. Mae rhoi pobl yn gyntaf, cydweithio er mwyn darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus, sicrhau gwell gwerth am arian a gwella'r gweithlu a meithrin cysylltiad ag ef yn egwyddorion allweddol er mwyn ein cynorthwyo i hybu cyfle cyfartal i bobl Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar

gael yn http://new.wales.gov.uk/dpsp/publications/policies/boundaries/beyondboundariese.pdf?lang=en

Ymgysylltu ac Ymwneud

Cydnabyddwn y gwahaniaethau yn y dyletswyddau cydraddoldeb sy'n mynnu bod pobl anabl yn cael eu cynnwys yn ein gwaith wrth iddo gael ei ddatblygu, yn hytrach na dim ond ymgynghori â hwy ar ddiwedd y broses. Byddwn yn ceisio ehangu'r egwyddor hon i bob maes cydraddoldeb. Rydym wedi ymgysylltu â'n grŵp staff anabl ac wedi gweithio gyda'r prif sefydliadau er mwyn sicrhau ein bod wedi cynnwys pobl anabl wrth ddatblygu'r Cynllun hwn a'r cynlluniau gweithredu sy'n cyd-fynd ag ef.

Er mwyn i'r Cynllun leihau anghydraddoldeb a hybu cydraddoldeb, mae'n hollbwysig iddo gael ei ddatblygu drwy ymgysylltu ystyrlon ac ymwneud go iawn â chynrychiolwyr pob un o'r meysydd. Nid proses unwaith ac am byth yw gwir ymgynghori ac ymwneud â phobl. Rhaid iddi fod yn broses barhaus. Yn gefn i'r gwaith hwn, ac i oleuo'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl, llwyddwyd i sicrhau bod y bobl yr oedd angen iddynt ymwneud ag ef yn gwneud hynny, trwy wahanol ffyrdd a thrwy ddefnyddio gwahanol fecanweithiau.

Lluniwyd amrywiol ffyrdd o ymgynghori â phobl ac â chyrff ar draws y meysydd cydraddoldeb ac â'r cyhoedd yn gyffredinol. Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd yn canolbwyntio ar gynnwys y cyhoedd – yn unigolion ac yn gyrff – a staff Llywodraeth y Cynulliad.

Rhai o'r ffyrdd a ddefnyddiwyd i ymgysylltu â phobl oedd grwpiau ffocws, holiaduron, gweithdai a digwyddiadau i randdeiliaid gan lwyddo i ddenu nifer dda. Drwy hyn, sicrhawyd bod modd i bobl dreulio amser o safon yn cyfrannu at y drafodaeth ynglŷn â chydraddoldeb. Yn sgil yr ymgysylltu, llwyddwyd i greu diddordeb mewn materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, cynorthwywyd i chwalu rhwystrau, darparwyd cyfleoedd i rwydweithio gan wneud i bobl ystyried o ddifrif y cyfleoedd sydd ar gael i gydweithio o ran datblygu polisïau a hefyd o ran darparu gwasanaethau.

Yn sgil yr ymgysylltu hwn, cafwyd ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth a sylwadau ar draws y meysydd cydraddoldeb. Ceir rhai o'r sylwadau hyn isod:

"Ystyr cydraddoldeb yw gallu ymwneud yn iawn â phobl heb adael i liw, rhywedd, a chrefydd ddod rhwng neb a hefyd, parchu ein gilydd a dathlu'n gwahaniaethau".

"Sicrhau ein bod yn cael gwybod am unrhyw gynnydd a llwyddiannau: drwy gyfrwng papurau newydd lleol / taflenni / posteri / llyfrynnau, rhyngrwyd/e-bost ac arddangosfeydd mewn lleoliadau yn y gymuned".

"Dylid hyfforddi darparwyr gwasanaethau ym *mhob maes,* gan gynnwys iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, o ran materion diwylliannol a materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth a chydraddoldeb a dylid eu gwneud yn fwy ymwybodol o'r materion hyn er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y bobl y maent yn eu gwasanaethu".

“Bydd hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gymorth i bobl ddeall a dathlu amrywiaeth Cymru ac i hybu cydlyniant cymunedol.”

“Rhwystrau cymdeithasol a ffisegol ac nid anabledd sy'n atal cynhwysiant".

“Mae'r weledigaeth yn rhagorol, sef arddel ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ym maes cydraddoldeb a honno'n rhoi sylw i anghenion unigol ar lwyfan gwastad".

“Dylid gwneud rhagor o waith mewn ysgolion i frwydro yn erbyn pob math o fwlio ac yn erbyn bwlio homoffobaidd ac Islamoffobaidd yn benodol”.

“Croesawaf yr ymrwymiad i gysylltu'r Gymraeg â phob maes cydraddoldeb arall".

“Ceir tystiolaeth bod rhai grwpiau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn dioddef yn sgil tangyflogaeth a chyflogau isel, a bod menywod, pobl hŷn a phobl â chyfrifoldebau gofalu’n wynebu anhawster wrth geisio cael gafael ar hyfforddiant a chyflogaeth cynhwysol”.

Mae’n hollbwysig bod yr adborth o’r broses ymgynghori’n dylanwadu ar benderfyniadau polisi Llywodraeth y Cynulliad ym mhob maes ac yn eu goleuo. Rydym wedi ystyried y materion a godwyd sydd wedi dylanwadu ar ddatblygu cynlluniau gweithredu’r Adrannau.

Cyhoeddwyd rhagor o fanylion am y broses ymgynghori mewn dogfen ar wahân sydd i’w gweld yn y wefan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol http://new.wales.gov.uk/topics/equality/?lang=cy

Cyhoeddwyd crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghori ac mae hwnnw ar gael hefyd drwy ddilyn y ddolen hon.

Ymgysylltu â’r Staff a’u Cynnwys

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi gwerth ar farn a safbwyntiau ei gweithlu ac mae wedi sefydlu nifer o rwydweithiau staff, gyda’r nod o roi fforwm i weithwyr Llywodraeth y Cynulliad godi materion a chyfnewid safbwyntiau. Mae’r rhain yn gyfrwng cymorth i’r unigolyn a hefyd yn adnodd i’r sefydliad o ran cefnogi’r penderfyniadau a wnawn ynglŷn â staff yn y dyfodol. Gan adeiladu ar y llwyddiant a welsom eisoes, rydym wrthi'n sefydlu Rhwydwaith Crefydd a Chredo. Rydym hefyd yn cynnig hyfforddiant mentora i aelodau’r rhwydwaith er mwyn iddynt fod yn fodelau rôl i bobl eraill sy’n ymuno â ni a’u cefnogi.

Rydym eisoes wedi sefydlu arferion nodedig ac wedi neilltuo ystafelloedd gweddïo ar gyfer ein staff, ystod eang o ddewis ar fwydlenni ffreuturau'r staff a chynlluniau cyflogi sydd wedi'u targedu.

Pictures from WAG event and SES poster to be inserted here

Mae’r rhwydweithiau hyn a’r undebau llafur yn Llywodraeth y Cynulliad wedi cael eu hannog i gymryd rhan yn natblygu’r Cynllun mewn sawl ffordd.

Mae cynnal arolwg blynyddol o farn y staff ar draws Llywodraeth y Cynulliad mae hyn yn gymorth inni weld a oes problemau. Yn arolwg staff 2008, llwyddwyd i

sicrhau cyfradd ymateb gyffredinol o 70%, sef 9% yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd agweddau staff anabl at y cwestiwn ynglŷn â chael eu trin yn deg yn llai ffafriol na'r cyfartaledd. Yn sgil hyn, cymerwyd camau a fydd yn cynnwys rhaglen ymchwil staff ar gyfer 2008-09 ac a fydd yn edrych ar y materion allweddol a godwyd ac yn cynnig argymhellion i Fwrdd Rheoli Llywodraeth y Cynulliad. Trefnwyd gweithdy staff hefyd i roi cyfle i'r staff ystyried materion trawsbynciol, i weld cyfleoedd ar gyfer cydweithio ac i gytuno ynglŷn â sut y gallent fwrw ymlaen â'r rhain yn eu cynlluniau gweithredu.

Llywodraethu

Sefydlwyd Grŵp Llywio'n cynnwys uwch swyddogion o bob cwr o Lywodraeth y Cynulliad fel rhan o'n trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl a'r cynlluniau gweithredu.

Cyfarfu'r Grŵp Llywio hwn bob mis yn ystod cyfnod y prosiect ac roedd yn gyfrifol am:

- Fonitro a thywys cyfeiriad y Cynllun Cydraddoldeb Sengl;
- Rhannu arferion nodedig a chynghori ynglŷn â materion allweddol fel y'u cyflwynwyd mewn cyfarfodydd.

Rhoddodd y Grŵp Llywio adroddiadau i'r Bwrdd Cyflawni a Pherfformiad Strategol i'w diweddaru a'u cynghori ynglŷn â'r cynnydd, y materion dan sylw a'r datblygiadau. Yr Ysgrifennydd Parhaol sy'n cadeirio'r Bwrdd ac ef sy'n gyffredinol gyfrifol am y ffordd y rhedir Llywodraeth y Cynulliad. Ymhlith yr aelodau eraill, ceir Penaethiaid Adrannau a Chyfarwyddwyr Anweithredol.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gynnig arweiniad amlwg ac effeithiol i'r sefydliad ac mae'n pennu ei flaenoriaethau a'i gyfeiriad.

Cyfarfu grŵp o bobl o'r Trydydd sector a'r sector cyhoeddus hefyd, ynghyd â staff Llywodraeth y Cynulliad, i gynnig safbwynt o'r tu allan wrth i'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl ddatblygu. Eu cylch gorchwyl oedd:

- Cynorthwyo i oleuo proses datblygu a gweithredu'r Cynllun;
- Trafod cynigion ar gyfer y Cynllun a'u herio;
- Rhannu arferion da;
- Cynghori ynglŷn â throsi'r amcanion a ddatganwyd yn gamau ymarferol wrth ddarparu gwasanaethau.

Monitro'r Cynnydd

Byddwn yn monitro'r cynnydd yn unol â'r dyletswyddau cydraddoldeb ac yn cyhoeddi adroddiadau rheolaidd ynglŷn â'r sefyllfa ddiweddaraf.

Mae pob un o adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn gyfrifol am ei chynllun gweithredu ar lefel Cyfarwyddwr. Bydd yn cyflwyno adroddiadau ynglŷn â'i chynnydd, gyda'r Hyrwyddwyr Cydraddoldeb yn chwarae rhan allweddol drwy weithio gyda'r Arweinwyr Cydraddoldeb yn yr Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau

Dynol. Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd y cynlluniau gweithredu wrth baratoi cynlluniau dilynol.

Ar ôl cyhoeddi'r Cynllun a'r cynlluniau gweithredu, cânt eu monitro a rhoddir diweddariad ar wefan Llywodraeth y Cynulliad bob chwe mis. Mae'r cynlluniau gweithredu'n cynnwys dull o fesur y cynnydd ac amserlenni.

Cyhoeddir Adroddiad Cydraddoldeb bob blwyddyn. Mae hyn yn amlinellu'r cynnydd a wneir o ran integreiddio cydraddoldeb ym mhob agwedd ar waith Llywodraeth y Cynulliad.

Yn 2008, bydd Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi'r adroddiad cyntaf un ar weithredu'r ddyletswydd Anabledd ar draws holl gyrff cyhoeddus Cymru. Adolygir y datblygiadau a chyhoeddir adroddiad bob tair blynedd.

Cyhoeddi'r Canlyniadau

Mae gofyn inni esbonio'n trefniadau ar gyfer cyhoeddi canlyniadau'r asesiadau, a chanlyniadau'r ymgynghori a'r monitro. O ran polisïau newydd a gynigir, mae hyn yn golygu esbonio'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi canlyniadau'r asesiadau a'r ymgynghori er mwyn gweld beth fydd effaith debygol polisïau ar hybu cydraddoldeb hil.

Mae Cynllun Cyhoeddi Llywodraeth y Cynulliad yn ein hymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd fel rhan o'n gweithgareddau busnes arferol. Byddwn yn glynu wrth unrhyw ddyletswyddau dan ddeddfwriaeth anabledd a gwahaniaethu er mwyn darparu gwybodaeth mewn ffurfiau a fformatau amgen pan ddarperir gwybodaeth yn unol â'r Cynllun Cyhoeddi. Mae rhagor o wybodaeth am y Cynllun Cyhoeddi ar gael gan assembly-publications@wales.gsi.gov.uk

Sicrhau bod y Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn Llwyddo

Ein nod fydd gwneud yr hyn a wnawn yn dda iawn. Fodd bynnag, sylweddolwn y bydd y nodau yr ydym wedi'u gosod inni'n hunain yn y ddogfen hon yn anodd eu cyrraedd ac y bydd angen mwy na thair blynedd i wireddu rhai ohonynt. Wrth inni barhau â'n gwaith ym maes cydraddoldeb, bydd y Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn ein cynorthwyo i ddatblygu'r ffordd y byddwn yn gwneud ein gwaith.

Ar lefel ymarferol, golyga hyn y bydd ein proses Creu Polisïau Cynhwysfawr yn cynnwys oedran, anabledd, rhywedd a thrawsrywedd, hil, crefydd a chredo a chyfeiriadedd rhywiol ynghyd â hawliau dynol.

Er mwyn symud tuag at weithio ar sawl maes, mae gofyn ymbellhau oddi wrth waddol gweithio ar feysydd unigol. Gall hyn fod yn anodd, a chofio bod llunwyr polisïau, darparwyr gwasanaethau a chyrff cydraddoldeb yn weddol ddibrofiad o ran gweithio ar draws y meysydd i gyd. Gwelwyd bod dulliau gwahanol o ymdrin â gwahanol 'feysydd' anghydraddoldeb, a bod gwahaniaethau rhwng y data a gesglir.

Sylweddolwn y bydd rhoi'r Dyletswyddau ar waith yn peri anawsterau. Byddwn yn cefnogi adrannau er mwyn iddynt rannu eu syniadau, eu gwerthoedd a'r camau a

gymerir ganddynt gyda'i gilydd wrth iddynt geisio mynd i'r afael â materion trawsbynciol a sicrhau'r un canlyniadau.

Fel rhan o ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn barhaus, rydym yn ymroddedig i wneud rhagor o waith datblygu ar drawsweithio neu weithio ar sawl maes gyda'n partneriaid yn y Trydydd sector statudol ac yn y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. .

Gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad yw:

- Cymru sydd gyda'r gorau yn y byd, lle dethlir cyfoeth ein diwylliant;

- Cymru fodern, gydag economi sy'n ffynnu lle bydd cyfraniad unigryw pob unigolyn yn cael ei alluogi a'i werthfawrogi;

- Cymru gynhwysol, lle bydd rhyddid, dewis, urddas a pharch yn gonglfaen i'n ffordd o fyw;

- Cymru gynaliadwy, lle bydd yr amgylchedd naturiol yn lân, yn iach, yn fiolegol amrywiol ac yn cael ei werthfawrogi gan bobl Cymru, a lle bydd sylw wedi'i roi i anghydraddoldebau amgylcheddol a'r rheini wedi'u goresgyn.

Er mwyn i'r Cynllun lwyddo, bydd angen cymorth ein holl bartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r Trydydd Sector arnom. Dyna pam y mae'n cynlluniau gweithredu'n dangos gyda phwy y dylem weithio er mwyn gweithredu'n effeithiol.

Dengys cynlluniau gweithredu'r Cynllun yr hyn y bwriadwn ei wneud a sut y byddwn yn gwneud hynny. Byddant yn rhan o weithdrefnau a systemau monitro Llywodraeth y Cynulliad. Rydym yn ystyried sut orau y mae cynnwys rhanddeiliaid er mwyn dal Llywodraeth y Cynulliad yn atebol am ei hymrwymiadau, ac er mwyn sicrhau mwy o ymwneud â'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl a mwy o ymdeimlad o berchnogaeth ohono.

ATODIAD 2

GWYBODAETH YNGLŶN Â'R YMGYNGHORI

Cynlluniwyd proses ymgynghori eang a'i rhoi ar waeth er mwyn ymgynghori ynglŷn â'r blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Sengl. Mae'r Cynllun a chynlluniau gweithredu'r adrannau'n ystyried y materion/safbwyntiau sydd wedi'u codi drwy'r gwahanol sianelau cyfathrebu a oedd ar gael yn ystod yr ymgynghori.

Rydym wedi mynd ati i feithrin cysylltiad â phobl anabl ac â mudiadau cynrychioladol fel a ganlyn:

- Gwahoddwyd cynrychiolwyr mudiadau cenedlaethol i ymuno â grŵp llywio Panel y Fforwm Cynghori Allanol a'r nod oedd i hynny gynorthwyo i oleuo datblygu'r Cynllun drafft.

- Sefydlwyd cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr sefydliadau cenedlaethol megis Anabledd Cymru, gan ofyn iddynt ein cynorthwyo i ymgynghori â phobl anabl a'u hannog i roi eu sylwadau inni.

- Ymgynghorwyd â phobl anabl drwy amrywiol ffyrdd – mynychu gweithdai, cynadleddau a digwyddiadau cyhoeddus, gweithio gyda grŵp ffocws o rieni a gofalwyr plant anabl a phobl ifanc o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a chyfarfodydd un ac un.

- Cyflwynwyd y cynllun drafft i Rwydwaith Staff Anabl Llywodraeth y Cynulliad.

Isod, ceir rhestr o'r cysylltiadau allweddol/digwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd wrth ymgynghori ynglŷn â'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl. Derbyniwyd hefyd 68 o ymatebion ysgrifenedig ffurfiol gan randdeiliaid allweddol ledled Cymru.

Grwpiau Ffocws

Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd:	-	Pobl ifanc
Grŵp Enfys Tor-faen:	-	Pobl Ifanc sy'n Lesbiaid, yn Hoyw neu'n Ddeurywiol
ABCD:	-	Rhieni/gofalwyr Grwpiau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n gofalu am blant anabl
Race Equality First:	-	Cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig
Women Connect First:	-	Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Rhyw cymysg Rhyng-grefydd Rhywedd
Ysgol Gynradd Pen-y-garn		Plant

Gweithdai

Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaethau Cyngor Dinas Abertawe

Rhwydwaith Cydraddoldeb Bro Morgannwg
Cynhadledd Flynyddol Stonewall Cymru

Ymgynghori'n Gyffredinol â Grwpiau

Cyfarfod y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Grŵp Cydraddoldeb Caerdydd
CEMVO Grŵp Ymgynghori ar Gynllun Cydraddoldeb Sengl Cymru

Arddangosiadau mewn Cynadleddau/Digwyddiadau

Cynhadledd Partneriaeth Gymdeithasol y TUC, Caerdydd
Cynhadledd Flynyddol Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru
Cynhadledd Stonewall Cymru
Disability Pride
Swyddfeydd Llywodraeth y Cynulliad

Holiaduron

Panel Dinasyddion Caerdydd
Panel Dinasyddion Casnewydd
Panel Dinasyddion Abertawe
Panel Dinasyddion Bro Morgannwg
Fforwm Gofalwyr a Defnyddwyr Tor-faen
Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Tor-faen
Cynllun Tai Gwarchod Sandowne Court

Rhwydweithiau/Digwyddiadau/Cyfarfodydd/Hybu Dogfennau

Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Casnewydd
Digwyddiad Hawliau Dynol BVSN
Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Tor-faen
Fforwm Defnyddwyr a Gofalwyr Tor-faen
Rhwydwaith Staff sy'n Fenywod, Llywodraeth y Cynulliad
Rhwydwaith Staff MESN, Llywodraeth y Cynulliad
Digwyddiadau'r RNID – Wrecsam a Gwent
Grŵp Tai Gwarchod Pobl Hŷn - Caerdydd
BVSN Pobl Ifanc sy'n Sipsiwn/Teithwyr ym Mangor Gwynedd ac Ynys Môn Fforwm Sipsiwn/Teithwyr, Rhaeadr
Rhwydwaith Cyd-gysylltwyr Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc
Aelodau Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched
Aelodau Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth
Bwrdd Dyfodol BSL Deganwy
Rhwydwaith Clymblaid Cydraddoldeb WCVA
Cyfarfod gweinidogion â chymuned Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Abertawe
Digwyddiad Bwrdd Crwn Caerdydd
SENSE
Grŵp Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd Llywodraeth y Cynulliad

Grŵp Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth Gogledd Cymru
Rhwydwaith Staff Lleiafrifoedd Ethnig Llywodraeth y Cynulliad
Grŵp Enfys Llywodraeth y Cynulliad
Grŵp Menywod Llywodraeth y Cynulliad
Derbynfeydd Llywodraeth y Cynulliad yng Nghaerdydd, Merthyr ac Aberystwyth

Digwyddiad i Randdeiliaid

3 Mehefin 66 yn bresennol

Cyfarfodydd

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Uned Partneriaeth, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg
Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG
Prifysgol Morgannwg
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru
Swyddfa Comisiynydd y Plant
Plant yng Nghymru
Canolfan Ragoriaeth LGBT Cymru
Chwarae Teg
Cytûn
Interfaith Abertawe
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
TUC
VALREC
Women Connect First
Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Cyngor Mudiadau Lleiafrifoedd Ethnig y Sector Gwirfoddol (CEMVO)
Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon Cymru
Cynhalwyr Cymru
Help the Aged
Age Concern
Rhaglen Cymorth i Fusnesau Ethnig (ESBP)
Grŵp Mynediad Arfon, Caernarfon
Grŵp Mynediad Ceredigion
Grŵp Mynediad Tor-faen
Cyngor Cymru i'r Byddar
Cyngor Cymru i'r Deillion
Anabledd Cymru
Achub y Plant
Ysgol Gynradd Herbert Thompson, Caerdydd
Ysgol Gymuned Pen-y-garn, Tor-faen
Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd:
Prosiect Cyngor am Anabledd Gwent
Cadeirydd Canolfan Cymunedau Affricanaidd Cymru
Amrywiol Adrannau Llywodraeth y Cynulliad

GWYBODAETH YNGLŶN Â'R YMGYNGHORI

Rhestr y sawl a oedd yn bresennol yn y Digwyddiad Ymgynghori ynglŷn â'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl a gynhaliwyd i Randdeiliaid - 3ydd Mehefin 2008.

Age Concern Cymru

Canolfan Cymunedau Affricanaidd Cymru/Polisi De Cymru

Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA)

Barnardos Cymru

Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon Cymru

Cynhalwyr Cymru

Plant yng Nghymru

Chwarae Teg

Y Cyngor Iechyd Cymuned

Cytûn

Cymdeithas y Byddar Cymru

Celfyddydau Anabledd Cymru

Anabledd Cymru

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Ymgynghorwyr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Rhaglen Cymorth i Fusnesau Ethnig (ESBP)

Y Ddraig Ffynci

Help the Aged

Melin Homes Ltd

MIND Cymru

Cyngor Mwslemiaid Cymru

NCH Cymru

Ysgol Gynradd Gymunedol Pen-y-Garn

Race Equality First

Ymgynghorwyr Reddenhill

RNID Cymru

Achub y Plant

Cymdeithas Integreiddio Somaliaid (SIS)

Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De-ddwyrain Cymru (SEWREC)

Cymuned Iddewon De Cymru

Stonewall Cymru

REC Bae Abertawe

Tai Pawb

Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Cyngor Cymru i'r Byddaf

TUC Cymru

Llywodraeth y Cynulliad

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cyngor Ffoaduriaid Cymru

Women Connect First

Llais Menywod

Y Gweithdy i Fenywod

ATODIAD 3

CEFNDIR CYNLLUNIAU GWEITHREDU'R ADRANNAU

Rydym wedi datblygu'n cynlluniau gweithredu ar sail y templed a fabwysiadwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Ein nod oedd cynhyrchu cynlluniau gweithredu SMART, sef rhai Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Realistig ac Amserol.

Lluniwyd ein cynlluniau gweithredu fesul adran, ond ein bwriad yw bwrw ymlaen i ddilyn dull mwy thematig. Er mwyn ein cynorthwyo i wireddu hynny, mae'r adrannau wedi cydweithio i ganfod blaenoriaethau a chanlyniadau cyffredin ynghyd â themâu trawsbynciol lle y gallant gydweithio yn ystod oes y Cynllun. Nodir hyn yn y cynlluniau gweithredu eu hunain.

Mae'r cynlluniau gweithredu'n nodi pa feysydd cydraddoldeb sy'n berthnasol i'r canlyniad ac, mewn ambell achos, bydd mwy nag un maes yn berthnasol.

Mae gan Lywodraeth y Cynulliad ddyletswyddau cyfreithiol penodol dan y tair dyletswydd gyffredinol i hybu cydraddoldeb ym maes anabledd, rhywedd a hil.

Er mwyn ei gwneud yn glir sut y mae pob un o'r gweithredoedd yn ein cynllun yn gysylltiedig ag un rhan o'r dyletswyddau cydraddoldeb, neu â mwy nag un ohonynt, rhifwyd pob rhan o bob dyletswydd cydraddoldeb. Rhestrir y rhain isod. Wrth ymyl pob cam gweithredu yn y cynllun, ceir colofn yn dangos pa ran o'r ddyletswydd gyffredinol sy'n berthnasol.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb hil yn mynnu ein bod, wrth roi ein swyddogaethau ar waith, yn rhoi sylw dyledus i'r canlynol — bod angen:

1. Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil.
2. Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl o wahanol grwpiau hil.
3. Hybu cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hil.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb anabledd yn mynnu ein bod, wrth roi ein swyddogaethau ar waith, yn rhoi sylw dyledus i'r canlynol — bod angen:

4. Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail anabledd.
5. Dileu aflonyddu ar bobl anabl sy'n gysylltiedig â'u hanableddau.
6. Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl anabl a phobl eraill.
7. Cymryd camau i ystyried anableddau pobl anabl hyd yn oed pan fydd hynny'n golygu eu trin yn fwy ffafriol na phobl eraill.
8. Hybu agweddau cadarnhaol at bobl anabl.
9. Annog pobl anabl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb rhywedd yn mynnu ein bod, wrth roi ein swyddogaethau ar waith, yn rhoi sylw dyledus i'r canlynol — bod angen:

10. Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail rhyw.<0}
11. Dileu aflonyddu.
12. Hybu cyfle cyfartal rhwng dynion a menywod.

ATODIAD 4

Cynlluniau Gweithredu Adrannol

Mae'r adrannau canlynol wedi paratoi cynlluniau gweithredu adrannol:

Materion Cyfansoddiadol, Cydraddoldeb a Chyfathrebu
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Yr Economi a Thrafnidiaeth
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd a Cyhoedd a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad
Treftadaeth
Adnoddau Dynol
Materion Gwledig
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Mae'r cynlluniau gweithredu i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn:

http://new.wales.gov.uk/topics/equality/?lang=cy

Os hoffech gopi caled o'r cynlluniau gweithredu, cysylltwch â:

Yr Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Ystafell 3.13
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
ehrd@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 029 2080 1067
Ffôn: 029 2082 3772

ATODIAD 5

Y CEFNDIR CYFREITHIOL

Hybu Cydraddoldeb – Ein Dyletswyddau Statudol

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ddyletswydd gyfreithiol ar Lywodraeth y Cynulliad i wneud trefniadau gyda golwg ar sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb . Mae'r ddyletswydd gyfreithiol hon yn sail i ymagwedd y Llywodraeth at hybu cydraddoldeb, a'n penderfyniad i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Sengl.

Dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, daeth y prif hawliau a'r rhyddid a roddir drwy'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("Hawliau'r Confensiwn") yn rhan o gyfraith y DU ac mae'n pennu cyfrifoldebau cyfreithiol awdurdodau cyhoeddus yng nghyswllt yr hawliau hynny. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn dweud nad oes gan Lywodraeth y Cynulliad bŵer i weithredu mewn modd sy'n anghydnaws â Hawliau'r Confensiwn. Golyga hyn ei bod yn rhaid i Lywodraeth y Cynulliad weithredu mewn ffordd sy'n gydnaws â'r Hawliau hynny wrth gyflawni ei holl swyddogaethau, gan gynnwys yn y ffordd y cynllunnir polisïau gwasanaethau cyhoeddus a'u rhoi ar waith.

Dyletswydd Cydraddoldeb Rhywedd

O 6 Ebrill 2007 ymlaen, diwygiwyd Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975 yn sgil Deddf Cydraddoldeb 2006, gan greu dyletswydd cydraddoldeb rhywedd gyffredinol sy'n mynnu bod awdurdodau cyhoeddus, wrth iddynt gyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus, yn rhoi sylw dyledus i'r *canlynol — bod angen:*

- dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon; a
- hybu cyfle cyfartal rhwng dynion a menywod.

Mae Gorchymyn Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975 (Awdurdodau Cyhoeddus) (Dyletswyddau Statudol) 2006 hefyd yn cyflwyno dyletswyddau penodol sy'n mynnu bod nifer o gyrff cyhoeddus yn datblygu Cynllun Cydraddoldeb Rhywedd sy'n disgrifio, ymhlith pethau eraill, sut y byddant yn cyflawni eu dyletswydd cydraddoldeb rhywedd gyffredinol.

Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad Gynllun Cydraddoldeb Rhywedd yn 2007. Erbyn hyn, mae'r cynllun hwnnw wedi'i ddisodli gan y Cynllun Cydraddoldeb Sengl.

Dyletswydd Cydraddoldeb Anabledd

Bwriedir i Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (2005) sbarduno diwylliant o newid er gwell ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus, a thrwy wneud hynny, chwalu llawer o'r rhwystrau a wynebir gan bobl anabl yn eu bywydau beunyddiol. Mae'r Ddeddf ddiwygiedig yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau

cyhoeddus, wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus, i roi sylw dyledus i'r canlynol – bod angen:

- Dileu gwahaniaethu sy'n anghyfreithlon dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.
- Dileu aflonyddu ar bobl anabl sy'n gysylltiedig â'u hanableddau.
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl anabl a phobl eraill.
- Cymryd camau i ystyried anableddau pobl anabl hyd yn oed pan fydd hynny'n golygu eu trin yn fwy ffafriol na phobl eraill.
- Hybu agweddau cadarnhaol at bobl anabl.
- Annog pobl anabl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.

Hefyd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gorfod cydymffurfio â dyletswyddau penodol dan Reoliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Awdurdodau Cyhoeddus) (Dyletswyddau Statudol) 2005 sy'n dweud y dylai awdurdod lleol:

- Gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Anabledd yn dangos sut mae'n bwriadu cyflawni ei ddyletswyddau cyhoeddus a phenodol.
- Cynnwys pobl anabl wrth ddatblygu'r Cynllun.

Dylai'r cynllun gynnwys datganiad ynglŷn â:

- Sut y mae pobl anabl wedi'u cynnwys wrth ddatblygu'r Cynllun.
- Dulliau'r awdurdod ar gyfer asesu effaith ei bolisïau a'i arferion;
- Y camau a gymer yr awdurdod tuag at gyflawni ei ddyletswydd gyffredinol (y 'cynllun gweithredu');
- Trefniadau'r awdurdod ar gyfer casglu gwybodaeth ynglŷn ag effaith ei bolisïau a'i arferion ar bobl anabl, yn enwedig yng nghyswllt recriwtio a chyflogaeth a, lle bo'n briodol, ar ddarparu addysg a'i wasanaethau a swyddogaethau eraill;
- Trefniadau'r awdurdod ar gyfer rhoi'r wybodaeth a gasglwyd ar waith, yn enwedig wrth adolygu effeithiolrwydd ei gynllun gweithredu ac wrth baratoi Cynlluniau Cydraddoldeb Anabledd dilynol;
- Rhaid i awdurdod cyhoeddus gymryd y camau a nodir yn ei gynllun gweithredu o fewn 3 blynedd iddo'i gyhoeddi (onid yw'n afresymol neu'n anymarferol gwneud hynny) a rhoi'r trefniadau ar gyfer casglu a defnyddio gwybodaeth ar waith;
- Rhaid i awdurdod cyhoeddus gyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys crynodeb o'r camau a gymerwyd dan y cynllun gweithredu, canlyniadau'r casglu gwybodaeth a'r ffordd y defnyddiwyd y wybodaeth.

Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad Gynllun Cydraddoldeb Anabledd ar 4 Rhagfyr 2006. Erbyn hyn, mae'r cynllun hwnnw wedi'i ddisodli gan y Cynllun Cydraddoldeb Sengl.

Dyletswydd Cydraddoldeb Hil

Diwygiwyd Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 gan orfodi dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus penodol.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn mynnu bod Llywodraeth y Cynulliad, wrth iddi gyflawni ei swyddogaethau, yn rhoi sylw dyledus i'r *canlynol — bod angen:*

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil; a
- Hybu cyfle cyfartal, a hybu cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hil.

Crëwyd cyfres o ddyletswyddau penodol hefyd sy'n mynnu bod awdurdodau cyhoeddus yn sefydlu ymagwedd ragweithiol at gydraddoldeb hil. Mae hyn yn cynnwys paratoi Cynllun Cydraddoldeb Hil, a ddylai nodi swyddogaethau'r Awdurdod, ei bolisïau a'i bolisïau arfaethedig hynny sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol, yn ôl asesiad yr Awdurdod.

Rhaid i'r Cynllun hefyd nodi trefniadau'r awdurdod ar gyfer:

- Asesu ac ymgynghori ynglŷn ag effaith debygol y polisïau arfaethedig ar hybu cydraddoldeb hil;
- Monitro'r polisïau ar gyfer effaith er gwaeth ar hybu cydraddoldeb hil;
- Cyhoeddi canlyniadau asesiadau, ymgynghori a monitro
- Sicrhau bod gan y cyhoedd ffordd o fynd at y wybodaeth a'r gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod;
- Hyfforddi staff yng nghyswllt y dyletswyddau cyffredinol a phenodol; ac
- Adolygu'r asesiad o'r swyddogaethau, y polisïau a'r polisïau arfaethedig bob 3 blynedd.

Yn ogystal â hyn, mae gan Lywodraeth y Cynulliad y dyletswyddau penodol a ganlyn sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, gan gynnwys:

- Monitro, yn ôl grŵp hil, nifer yr ymgeiswyr am swyddi, hyfforddiant a dyrchafiad;
- Monitro, yn ôl grŵp hil, nifer y staff sydd: yn eu swyddi; yn cael eu hyfforddi; ar eu hennill neu ar eu colled yn sgil gweithdrefnau asesu perfformiad y Cynulliad, yn ymwneud â gweithdrefnau cwyno neu ddisgyblu; neu'n rhoi'r gorau i'w gwaith yn y Cynulliad; a
- Chyhoeddi, bob blwyddyn, ganlyniadau'r monitro cyflogaeth.

Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad Gynllun Cydraddoldeb Hil yn 2005. Erbyn hyn, mae'r cynllun hwnnw wedi'i ddisodli gan y Cynllun Cydraddoldeb Sengl.

Deddf Cydraddoldeb 2006

Cafodd y Ddeddf Cydraddoldeb Gydsyniad Brenhinol ar 16 Chwefror 2006. Ei phrif ddarpariaeth yw sefydlu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o fis Hydref 2007 ymlaen. Bydd y Comisiwn yn ysgwyddo gwaith y tri Chomisiwn Cydraddoldeb sy'n bodoli eisoes ac yn hybu dealltwriaeth o bwysigrwydd cydraddoldeb, hawliau dynol a chysylltiadau da.

Deddfwriaeth Cydraddoldeb yn y Dyfodol

Mae llawer o ddeddfwriaeth yn ymwneud â chydraddoldeb ac mae ymrwymiad wedi'i wneud i gysoni ac i symleiddio'r gwahanol ddeddfau. Cyhoeddwyd y bwriedir cyflwyno Mesur Cydraddoldeb Sengl a fydd yn cychwyn ar ei daith drwy'r Senedd yn y sesiwn nesaf. Nod y Ddeddf Cydraddoldeb fydd cynorthwyo i gamu ymlaen tuag at gymdeithas deg a chydradd. Daw un Ddeddf i ddisodli'r gwahanol ddeddfwriaeth sydd ar gyfer gwahanol "feysydd" cydraddoldeb. Y bwriad yw ei gwneud yn haws i bobl wybod beth yw eu hawliau a'u cyfrifoldebau.

ATODIAD 6

Termau a byrfoddau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

Credo – Mae'n cynnwys golwg ddi-grefydd ar y byd, megis dyneiddiaeth, a ystyrir yn debyg i grefydd

Deurywiol – Rhywun sy'n cael ei ddenu'n rhywiol at bobl o'r ddau ryw (dyn neu fenyw)

Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig - Pobl o darddiad neu o wlad sy'n ddu neu beidio ond sy'n amlwg yn llai o nifer ac yn llai o nifer o safbwynt ystadegol na mwyafrif y boblogaeth wyn, boed hynny'n lleol neu'n genedlaethol.

Cydlyniant Cymunedol – Dywed y diffiniad y cytunwyd arno yn y DU mai cydlyniant cymunedol yw'r hyn sy'n gorfod digwydd ym mhob cymuned er mwyn galluogi gwahanol grwpiau o bobl i ymwneud yn iawn â'i gilydd. Un elfen allweddol sy'n cyfrannu at hyn yw integreiddio a rhaid i hyn ddigwydd er mwyn galluogi trigolion newydd a thrigolion sy'n byw yn rhywle eisoes i ymaddasu i'w gilydd.

Amrywiaeth – Y gwahaniaethau sydd rhwng pob unigolyn mewn unrhyw grŵp o bobl o ran agweddau, persbectif diwylliannol, credoau, cefndir ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau bywyd.

Gwahaniaethu Uniongyrchol – Mae trin rhywun yn llai ffafriol heb fod cysylltiad rhwng hynny â rhagoriaethau, gallu neu botensial unigolyn neu grŵp yn cael eu defnyddio'n rhesymau penodol dros wahaniaethu yn eu herbyn.

Anabledd – Yn ôl Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005, diffinnir person anabl fel rhywun y mae ganddo nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol neu dymor hir er gwaeth ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol beunyddiol.

Gwahaniaethu ar sail Anabledd – Dywed y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd fod rhywun yn anabl os oes ganddynt nam meddyliol neu gorfforol sy'n cael effaith er gwaeth ar ei allu i gyflawni gweithgareddau ''arferol beunyddiol', a bod yr effaith er gwaeth hon yn sylweddol ac yn dymor hir (12 mis neu fwy).

Gwahaniaethu – Bydd hyn yn digwydd pan fydd unigolyn neu grŵp o bobl yn cael eu trin llai ffafriol na phobl eraill oherwydd ffactorau nad oes a wnelont â'u rhagoriaethau, â'u gallu na'u potensial.

Dyletswydd – gofyniad gorfodol a chyfreithiol

EHRC - Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyfle Cyfartal – Egwyddor trin pob gweithiwr neu ymgeisydd am swydd, hyfforddai neu fyfyriwr yn gyfartal, ni waeth beth yw eu 'hil', eu crefydd/credo, eu rhyw, eu hoedran, eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hanabledd.

Cydraddoldeb – Nid trin pawb yr un fath yw hyn. Mae a wnelo cydraddoldeb â sicrhau nad oes neb dan anfantais o ran cael yr hyn y mae ei angen arnynt. Mae a wnelo cydraddoldeb â chymdeithas decach, lle gall pobl gyflawni eu potensial hyd yr eithaf.

Deddf Cydraddoldeb 2006 – Y ddeddfwriaeth a greodd endid cyfreithiol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac a gyflwynodd y Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhywedd.

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb- Dadansoddiad manwl a systematig o'r effaith wirioneddol neu'r effaith bosibl a gaiff polisi neu arfer, darpariaeth neu faen prawf er mwyn gweld a gaiff effaith wahanol ar grwpiau penodol o bobl. Proses ragweld yw hon sy'n caniatáu i sefydliadau ragweld rhwystrau posibl a wynebir gan grwpiau targed cydraddoldeb. Os bydd y polisi'n rhoi un grŵp targed cydraddoldeb neu fwy nag un dan anfantais, bernir bod effaith er gwaeth. Yna, rhaid cymryd camau liniaru'r effaith er gwaeth neu'r effaith negyddol hon.

Grŵp Ethnig – Grŵp o bobl sy'n cael eu diffinio gan eu hil, eu lliw, eu cenedligrwydd (gan gynnwys eu dinasyddiaeth), eu tarddiad ethnig neu genedlaethol.

Dyn Hoyw - Dyn â chyfeiriadedd rhywiol at ddynion eraill.

Rhywedd – Cysyniad sy'n cyfeirio at y gwahaniaethau cymdeithasol rhwng menywod a dynion a'r gwahaniaethau hynny'n rhai sydd wedi'u dysgu ac sy'n gallu newid gyda threigl amser. Mae'r rhain yn amrywio'n fawr o fewn diwylliannau a rhwng diwylliannau.

Hunaniaeth o ran Rhywedd - Mae ymdeimlad rhywun o hunaniaeth yn aml yn cael ei ddiffinio ar sail categorïau gwryw a benyw. Mae'n bwysig nodi nad yw pawb yn uniaethu gydag un rhyw, neu efallai eu bod yn uniaethu â'r hunaniaeth na chawsant ei geni iddi'n fiolegol (gwryw neu fenyw).

Ailaseinio rhyw – Proses feddygol lle bydd unigolyn yn cael triniaeth feddygol i newid eu corff er mwyn i bobl drawsrywiol newid eu cyrff i gydweddu â'u hunaniaeth o ran rhyw

Dyletswydd Gyffredinol – Mae'r ddyletswydd yn ofyniad a roddir ar awdurdodau cyhoeddus a'r sawl sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, i roi sylw dyledus i ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu ar sail rhyw ac i hybu cydraddoldeb o ran y rhywiau, hil, oedran ac anabledd yn eu polisïau, yn eu gwasanaethau ac yn eu cyflogaeth.

Aflonyddu – Ymddygiad heb ei gymell sy'n bychanu, sy'n ceisio torri urddas, neu'n dychryn neu'n creu amgylchedd gweithio sarhaus. Gall hyn fod ar ffurf bwlio, closio at rywun mewn ffordd rywiol heb fod hynny wedi'i gymell, jôcs/cellwair sarhaus a sylwadau diraddiol

Hawliau Dynol - Hawliau'r Confensiwn a restrir yn Adran 1 Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i fyw, yr hawl i beidio â chael eich arteithio, neu eich trin mewn ffordd annynol neu ddiraddiol; yr hawl i fod yn rhydd rhag

caethwasiaeth; yr hawl i ryddid; i dreial neu wrandawiad teg; i barch at eich bywyd preifat a'ch bywyd teulu a'ch cartref; a gohebiaeth; i barch at ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd; rhyddid mynegiant; rhyddid i gyfeillachu ac ymgynnull; i briodi a chael teulu; i fwynhau eiddo mewn heddwch; i gael addysg; etholiadau rhydd ac i beidio â chael neb yn gwahaniaethu yn eich erbyn wrth ichi arfer unrhyw un o'r hawliau hyn.

Creu Polisïau Cynhwysol - (Gweler Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb)

Gwahaniaethu Anuniongyrchol – Rhoi maen prawf, darpariaeth neu arfer ar waith sy'n rhoi pobl o 'grŵp hil', rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd/gredo penodol dan anfantais.

Lesbian - Menyw â chyfeiriadedd rhywiol at fenyw arall

LGBT – Acronym derbyniol a ddefnyddir yn Saesneg ar gyfer lesbiaid, hoywon, pobl ddeurywiol a thrawsrywiol.

Prif ffrydio – Yn ôl diffiniad y Pwyllgor Sefydlog ar Gyfle Cyfartal, ystyr Prif ffrydio Cydraddoldeb yw "integreiddio egwyddorion, strategaethau ac arferion cyfle cyfartal i waith beunyddiol y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill.

Monitro – Ystyr hyn yw casglu ffigurau ac asesu ystadegau a hefyd yn yr ystyr ehangach, ymgynghori'n rheolaidd â'r rheini y mae polisi'n effeithio arnynt er mwyn gweld pa mor dda y mae'n gweithio.

Canlyniad – Y newidiadau, y buddiannau neu'r dysgu sy'n deillio o'r hyn y mae sefydliad neu brosiect yn ei gynnig neu'n ei ddarparu.

Porth Polisïau - Proses yw hon a luniwyd er mwyn cynorthwyo i sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gwneud polisïau yng Nghymru sy'n gynaliadwy, sy'n ystyried holl ddyletswyddau statudol y Llywodraeth ac yn eu gwireddu.

Polisïau ac Arferion – Dyma'r term a ddefnyddir mewn deddfwriaeth weithiau i ddisgrifio'r gweithgareddau yr ymgymerir â hwy gan Lywodraeth y Cynulliad. Yn y cyd-destun hwn, golygwn y polisïau a'r cynlluniau gweithredu y byddwn yn eu datblygu a'r rhaglenni, y cynlluniau a'r strategaethau a ddarparwn fel rhan o'n gwaith beunyddiol.

Gweithredu Cadarnhaol – Y dulliau cyfreithlon y gall sefydliad eu defnyddio i annog grwpiau penodol o bobl i ymuno â byd gwaith, addysg neu hyfforddiant. Gall anogaeth o'r fath eithrio grwpiau eraill, ond mae hyn yn gwbl gyfreithlon os mai bwriad y camau a gymerir yw gwrthweithio gwaddol hanesyddol gwahaniaethu yn erbyn y grŵp dan sylw y ceisir ei annog.

Rhagfarn – Mae gan lawer o bobl ragfarnau yn erbyn pobl neu grwpiau, neu maent yn eu drwglicio rywfaint. Fodd bynnag, daw rhagfarn yn erbyn unigolyn neu bobl yn beth difrifol iawn os caiff y rhagfarn honno effaith ar y ffordd yr ymdrinnir â'r person hwnnw. Unwaith y trosir meddyliau rhagfarnllyd yn weithred, try'n wahaniaethu.

Deddf Cysylltiadau Hiliol – Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cysylltiadau Hil (Diwygio) 2000.

Hiliaeth – Hiliaeth yw pan fydd rhywun yn arddel cred neu agwedd bod pobl o wahanol hil, grŵp ethnig neu bobl y mae lliw eu croen yn wahanol i liw eu croen, naill ai'n fiolegol, yn ddeallusol, neu'n gorfforol israddol iddynt hwy eu hunain.

Crefydd – Mae hyn yn cynnwys crefyddau mwyafrifol a lleiafrifol megis Islam, Cristnogaeth, Sikhiaeth, Iddewiaeth a Zoroastrianiaeth. Er mwyn cael ei hamddiffyn dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006, rhaid i grefydd gael ei chydnabod yn un sy'n argyhoeddi, sy'n ddifrifol, sy'n gydlynol ac sy'n gydnaws ag urddas y ddynoliaeth.

Cyfeiriadedd Rhywiol – Y term sy'n cyfeirio at atyniad rhywiol at bobl o'r un rhyw neu at bobl o'r rhyw arall neu at yr un rhyw a'r rhyw arall.

Dyletswyddau Penodol – Set o ddyletswyddau sy'n cyfrannu at gyflawni'r ddyletswydd Gyffredinol; h.y., y rheini sy'n ymwneud â'r dyletswyddau o ran hil, anabledd a rhywedd.

Statudol – Rhywbeth sydd wedi'i gymeradwyo gan y Senedd neu gan Lywodraeth y Cynulliad ac y mae'n rhaid ei wneud yn ôl y gyfraith.

Trawsrywiol – Term hollgynhwysfawr i gynnwys pobl drawsrywiol a thrawswisgwyr. Gall gyfeirio'n fwy penodol at rywun sy'n profi 'dysfforia rhyw' rhwng rhyw eu corff a'r ffordd y mae'r gymdeithas wedi creu rôl i'r rhywiau. Gall hefyd gyfeirio at rywun sy'n 'chwarae gyda' normau rhyw/rôl y rhywiau a hynny'n ymwybodol. Gall rhywun trawsrywiol ddewis newid eu cyrff neu beidio drwy gael therapi hormonau neu lawdriniaeth.

Trawsrywiol - Rhywun sy'n teimlo awydd cyson a llethol i fyw eu bywyd fel aelod o'r rhyw arall.

Erlid – Trin rhywun yn llai ffafriol am eu bod wedi neu am eu bod wrthi'n dwyn achos ymddygiad gwahaniaethol neu'n rhoi gwybodaeth neu'n cynorthwyo rhywun sydd wedi dioddef gwahaniaethu yng nghyswllt achos o'r fath.

ATODIAD 7

LLYFRYDDIAETH A DOLENNI GWE

Azar, R. et al., 2007, *Diverse Britain 2007. The Changing Face of a Nation,* United Kingdom, Regal Press Limited

Swyddfa'r Cabinet, Chwefror 2007, *Adroddiad terfynol yr Adolygiad Cydraddoldeb dan y teitl "Fairness and Freedom*
http://archive.cabinetoffice.gov.uk/equalitiesreview/upload/assets/www.theequalitiesreview.org.uk/equalities_review_-_fairness_and_freedom.doc

Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995
http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1995/ukpga_19950050_en_1

Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005
http://www.opsi.gov.uk/Acts/acts2005/ukpga_20050013_en_1

Deddf Cydraddoldeb 2006
http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2006/ukpga_20060003_en_1.htm

Deddf Llywodraeth Cymru 2006
http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2006/ukpga_20060032_en_1.htm

Deddf Hawliau Dynol 1998
http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1998/ukpga_19980042_en_1

Swyddfa Ystadegau Gwladol, Mehefin 2007, *Equalities Data Review 2007*
http://www.ons.gov.uk/about-statistics/measuring-equality/equality-data-review/index.html

Gorchymyn Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976, (Dyletswydd Statudol Cyffredinol), 2006
http://www.opsi.gov.uk/si/si2006/uksi_20062470_en.pdf

Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000
http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2000/ukpga_20000034_en_1

Reddenhill Consulting Limited, 21 Ebrill 2008, A report on delivering a pilot training and development programme and consultancy departmental support for Inclusive Policy Making
http://new.wales.gov.uk/topics/equality/inclusivepolicy/?lang=cy

Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975
http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1975/pdf/ukpga_19750065_en.pdf

Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, Ionawr 2007, Stonewall
http://image.guardian.co.uk/sys-files/Society/documents/2007/01/09/gayfriendlyemployers.pdf

Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn, Rhagfyr 1989
http://www.hrweb.org/legal/child.html

Confensiwn y CU ar Hawliau Dynol, 1950
http://conventions.coe.int/treaty/en/Treaties/Html/005.htm

Watson, J & Woolf, M, 2008, *Human Rights Act Toolkit*, Ail Argraffiad, Prydain Fawr, LAG Education and Service Trust Limited.

Llywodraeth y Cynulliad, Gorffennaf 2006, *Adroddiad Beecham – Ar Draws Ffiniau*
http://wales.gov.uk/dpsp/strategy/boundaries/beyondboundariesw.pdf?lang=cy

Llywodraeth y Cynulliad, Mehefin 2007, *Beyond Barriers Report*
http://www.opinionresearch.org.uk/makingconnections/pdfs/MtC%20Beyond%20Barriers%20%5BFull%20Report%5D%20-%20ORS%20Final%20Draft%2027.06.07.pdf

Llywodraeth y Cynulliad, Rhagfyr 2006, *Cynllun Cydraddoldeb Anabledd*
http://new.wales.gov.uk/caec/publications/equality/descheme/deschemee.pdf?lang=en

Llywodraeth y Cynulliad, 2007, *Yr Wythfed Adroddiad Blynyddol ar waith i hyrwyddo Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer 2006-2007*
http://new.wales.gov.uk/topics/equality/publications/equalityannualrpt8/?lang=cy

Llywodraeth y Cynulliad, 2007, *European Year of Equal Opportunity 2007 Report*
www.wlga.gov.uk/english/equalities-social-justice/report-uk-contribution-to-2007-european-year-of-equal-opportunities-for-all

Llywodraeth y Cynulliad a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Mawrth 2007, *Hwyluso gweithio ar draws meysydd.*
Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol, Mawrth 2007, Llywodraeth y Cynulliad
http://http://wales.gov.uk/topics/equality/publications/gescheme/?lang=cy.

Llywodraeth y Cynulliad, Mawrth 2007, *Creu'r Cysylltiadau – Creu Gwell Gwasanaethau i Gwsmeriaid*
http://new.wales.gov.uk/dpsp/publications/people1st/bettercustomerservices/FrameworkEnglish?lang

Llywodraeth y Cynulliad, Awst 2005, *Prif Ffrydio Cydraddoldeb*
http://wales.gov.uk/topics/equality/publications/mainstreaming/?lang=cy

Llywodraeth y Cynulliad, Mehefin 2006, *"Cymru'n Un", Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru*
http://waleshttp://wales.gov.uk/about/strategy/1wales/?lang=cy

Llywodraeth y Cynulliad, 2007, *Cynllun Cyflenwi "Cymru'n Un", 2007-2011*
http://new.wales.gov.uk/about/strategy/publications/1walesdeliveryplan/?lang=cy

Llywodraeth y Cynulliad, Tachwedd 2002, *Y Cynllun Cyhoeddi*

http://wales.gov.uk/cisd/publications/publicationscheme/schemew.pdf?lang=cy

Llywodraeth y Cynulliad, Mawrth 2005, *Cynllun Cydraddoldeb Hiliol* http://wales.gov.uk/caec/publications/equality/rescheme/ressummaryw.pdf?lang=cy

Llywodraeth y Cynulliad, 2008, *Adroddiad ar y broses ymgynghori ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Sengl*

Llywodraeth y Cynulliad, 2008, *Dogfen Ymgynghori ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Sengl* http://new.wales.gov.uk/consultation/dsplc/2008/sesconsultation/sesconsult12e.pdf?lang=en

Yr Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Ystafell 3.13
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
ehrd@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 029 2080 1067
Ffôn: 029 2082 3772

http://new.wales.gov.uk/topics/equality/?lang=cy

Mae'r Cynllun a'r dogfennau ategol hefyd ar gael mewn ffurfiau amgen, mewn print bras, Braille a sain. Os hoffech gael unrhyw wybodaeth ar ffurf amgen rhowch wybod i ni drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.